



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Sicrhau Lleisiau i Bobl Hŷn

**Mynediad Pobl Hŷn at Eiriolaeth
Annibynnol yng Nghymru**

Mai 2018

**Llais ac eiriolwr annibynol
ar gyfer pobl hŷn**

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thŷm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thŷm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

Cynnwys

Rhagair & Canfyddiadau'r Comisiynydd	04
Cefndir	10
Beth yw eiriolaeth annibynnol a pham mae'n bwysig i bobl hŷn?	11
Fy ngwaith ar eiriolaeth annibynnol	13
Y Prif Ganfyddiadau	16
Mae diffyg dealltwriaeth o eiriolaeth annibynnol a hawliau pobl i'w derbyn	16
Diffygion yn y dull o gynnig eiriolaeth annibynnol	25
Effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol a'r ffordd o'i chymhwyso	32
Natur annigonol y data mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol statudol	42
Nid yw'r broses cynllunio ar gyfer eiriolaeth annibynnol yn ddigonol	49
Action Required	58
Diolchiadau	63

Rhagair

Rydym yn cymryd llawer o bethau'n ganiataol mewn bywyd: ein hiechyd, ein hannibyniaeth, ein ffrindiau a'n teuluoedd. Ond yn fwyaf oll efallai, rydym yn cymryd yn ganiataol ein gallu – ein hawl – i wneud penderfyniadau drosom ni'n hunain. Penderfyniadau y credwn eu bod yn iawn i ni ac yn iawn i'n teuluoedd a'r rheini sy'n bwysig i ni. Penderfyniadau am faterion hollbwysig fel ble fyddwn yn byw, ble fyddwn yn mynd, pwy fyddwn yn eu gweld, beth fyddwn yn ei fwyt a pha bryd yr awn i'r gwely. Ac yn bwysig, penderfyniadau am yr agweddau mwyaf personol ar ein bywydau; a fyddwn yn cael triniaeth neu beidio, a fydd gennym ryddid personol a ble a chyda phwy rydym yn byw. Mae cysylltiad anorfod rhwng y gallu i wneud penderfyniadau priodol, neu ofalu eu bod yn cael eu gwneud, a chael llais effeithiol, llais y gofynnir am ei glywed, a gefnogir ac a gaiff statws digonol wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r pwysigrwydd o gael llais effeithiol wedi'i gydnabod yn glir ar lefel strategol yng Nghymru. Un o egwyddorion sylfaenol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw bod pobl yn cael llais a rheolaeth dros eu bywydau¹. Ym maes gofal iechyd, rhoddir sylw cynyddol i benderfynu ar y cyd drwy'r agenda ar ofal iechyd darbodus ac mae cydgynhyrchu wedi'i hyrwyddo ers amser hir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'r newid mewn blaenoriaeth i roi mwy o bwyslais ar lais yr unigolyn yn ganmoladwy. Mae'n briodol bod pobl yn cael lle canolog mewn penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw ac mae'n briodol bod hyn yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth.

Un o'r agweddau pwysig ar fy rôl fel Comisiynydd yw sicrhau bod pobl hŷn yn cael llais cryf a bod yn llais i'r rheini sydd heb lais. Mae'r egwyddor hon yn elfen hanfodol yn fy Fframwaith Gweithredu 2013-17, sy'n amlinellu fy ymrwymiad i 'weithredu i sicrhau bod gan bobl hŷn sydd mewn sefyllfa o fod yn agored i niwed eu llais cryf eu hunain, a'u bod yn cael eu clywed, gan gynnwys hawl i eiriolaeth annibynnol, ar gyfer y rhai sydd â galluedd, a'r rhai sydd heb alluedd, fel ei gilydd'.² Nid yn unig y mae pobl hŷn yn dweud wrthyf fod hyn yn bwysig iddyn nhw, ond mae hefyd yn bwysig i'r cyhoedd yn gyffredinol sydd am i bobl hŷn 'gael eu clywed a chael llais', gan weld fy rôl fel Comisiynydd fel ffordd i hyrwyddo hyn³.

Mae'n glir i mi wrth ymwneud â phobl hŷn, ac ar sail fy ngwaith achosion a'm hymgysylltu cyson â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn, yn enwedig

1 Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2011

2 Blaenoriaeth 4, Fframwaith Gweithredu 2013-17, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Mai 2013

3 Arolwg Cynhwysfawr Cymru: ymchwil i ganfyddiadau ac ymwybyddiaeth o Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, wedi'i pharatoi gan Beaufort Research, Tachwedd 2017 – O'r ymatebwyr 55+ oed sy'n cytuno bod angen Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, dywedodd 45% fod angen i bobl hŷn gael eu clywed / cael llais, dywedodd 30% fod ar bobl hŷn angen rhywun i'w cynrychioli, dywedodd 23% fod ar bobl hŷn angen rhywun i gynnal eu hawliau a gofalu am eu buddiannau, dywedodd 19% fod ar bobl hŷn angen rhywun i wrando arnynt, dywedodd 17% nad yw pobl hŷn yn gallu siarad dros-tynt eu hunain

sefydliadau'r trydydd sector a Gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol ledled Cymru, fod nifer mawr o bobl hŷn yn parhau i'w chael yn anodd cael llais.

Dyma pam y penderfynais adolygu'r graddau y mae pobl hŷn yng Nghymru'n gallu cael gwasanaeth eiriolaeth annibynnol, yn cynnwys amgylchiadau lle mae ganddynt hawl i'w gael, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan a bod â rhan ganolog mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd.

Er bod y cynnig o eiriolaeth annibynnol statudol yn ddatblygiad mwy diweddar mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, nid yw'r cysyniad o eiriolaeth annibynnol yn beth newydd. Yn wir, mae wedi'i hen sefydlu mewn deddfwriaeth arall ac mewn sectorau eraill, ac yn cael ei gweld a'i defnyddio fel ffordd i sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i bobl ac i gynnal hawliau pobl.

Felly byddwn wedi disgwyl gweld cynnydd mawr ar ôl gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r dyletswyddau statudol sydd ynddi yng nghyswllt eiriolaeth annibynnol statudol a hefyd ar draws y sector eiriolaeth annibynnol yn gyffredinol.

Fodd bynnag, er bod nifer o gamau gwahanol yn cael eu cymryd nawr, mae'n glir bod nifer mawr o bobl hŷn nad ydynt yn gallu derbyn gwasanaeth eiriolaeth annibynnol, yn fwy cyffredinol ac mewn perthynas â'r dyletswyddau mewn deddfwriaeth. Nid yw eiriolaeth annibynnol yn cael ei defnyddio'n gyson fel ffordd i wireddu hawliau pobl hŷn, ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Yn ogystal ag ymgysylltu â nifer mawr o ddarparwyr eiriolaeth annibynnol, comisiynwyr, defnyddwyr gwasanaethau, arweinwyr polisi a sefydliadau trydydd sector, ac amrywiaeth o gyrff eraill, edrychais ar y data sydd ar gael mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol. Roedd yn glir nad yw'r data hyn yn ddigonol ac nad ydynt yn cyfleu nemor ddim o werth ymarferol am effeithiolrwydd deddfwriaeth a'r defnydd o eiriolaeth annibynnol statudol.

Dylai'r holl bobl hŷn deimlo bod ganddynt lais, dewis a rheolaeth ar eu bywydau a'u bod yn cael cymorth priodol i wneud penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed. Mae'n bwysig i bob un ohonom fod gennym lais, dewis a rheolaeth. Mae'r rhain yn ymwneud â hunaniaeth, ymreolaeth, hunanfynegiant a hawliau dynol. Os nad yw'r rhain gennym, mae hynny'n tanseilio hyder, hunan-barch a llesiant a'r gallu i sicrhau canlyniadau allweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan osod mwy o faich hefyd ar y pwrs cyhoeddus.

Os bydd gwasanaethau'n methu â gwrando'n effeithiol, os na fydd barn, dymuniadau a theimladau pobl yn cael lle canolog mewn penderfyniadau, gall hynny arwain at golli'r enw da sydd gan wasanaethau a hefyd at dderbyn pobl i'r

ysbyty'n ddiangen, aros yn hwy yn yr ysbyty, yr angen am ddarparu gofal statudol yn gynharach neu dderbyn pobl i gartrefi gofal yn gynnar, gan roi mwy o faich ar y pwrs cyhoeddus. Er bod y pris a delir gan wasanaethau cyhoeddus yn gallu bod yn uchel iawn, bydd y gost a delir gan yr unigolyn o ganlyniad i fethu â gwrando'n effeithiol yn uwch byth bob amser. Nid oes dim yn fwy costus na methu â gwneud hyn ac rwyf yn dod ar draws enghreifftiau drwy'r amser yn fy ngwaith achosion lle mae gwasanaethau cyhoeddus wedi methu â gwrando ar yr unigolyn.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r adroddiad hwn ac, yn enwedig, i'r rheini sydd wedi rhannu eu profiadau personol â mi gan ddangos sut mae derbyn gwasanaeth eiriolwr annibynnol wedi'u helpu i gael llais, dewis a rheolaeth ar eu bywydau.



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Mae sicrhau bod llais cryf gan bobl er mwyn gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau a'u llywio'n effeithiol mewn perthynas â'u hiechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i sicrhau canlyniadau ystyrlon a darparu gwasanaethau o ansawdd da. Mae hyn yn golygu bod angen cymryd camau i helpu pobl i fynegi eu barn a rhoi statws digonol i'r farn honno i'w gwneud yn ystyriaeth ganolog mewn penderfyniadau. Ar gyfer rhai pobl, Eiriolaeth Annibynnol fydd yr unig ffordd i gyflawni hyn.

Fodd bynnag, er bod nifer o gamau gwahanol yn cael eu cymryd nawr, mae'n glir bod nifer mawr o bobl hŷn nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth eiriolaeth annibynnol, yn fwy cyffredinol ac mewn perthynas â'r dyletswyddau mewn deddfwriaeth. Nid yw eiriolaeth annibynnol yn cael ei defnyddio'n rheolaidd fel modd i wireddu hawliau pobl mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae hefyd yn glir bod y sylfaen darparwyr a sefydlwyd o ganlyniad i ddarparu cyllid y Loteri Fawr yn fregus ac na fydd modd ei chynnal heb ragor o fuddsoddi. Rhaid sicrhau bod y trefniadau comisiynu a chontractio sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer hyfywedd y sector yn y tymor hir.

Roedd y cyfweiliadau â rhanddeiliaid yn tynnu sylw'n gyson at nifer o feysydd allweddol sy'n peri pryder ac sy'n ymddangos yn rhwystrau ledled Cymru:

- Nid yw gweithwyr proffesiynol bob amser yn deall yr hawliau cyfreithiol i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol ac mae diffyg eglurder ynghylch beth yw eiriolaeth annibynnol.
- Mae'r cynnig o eiriolaeth annibynnol yn rhy oddefol, ac mae hyn yn cael ei waethygu gan ddiffyg 'cynnig rhagweithiol' gan weithwyr proffesiynol.
- Weithiau mae diffygion yn y ddeddfwriaeth bresennol a'r ffordd o'i chymhwyso'n gallu atal pobl rhag cael llais effeithiol yn y broses penderfynu.
- Nid oes digon o ddealltwriaeth o'r angen am wasanaethau eiriolaeth annibynnol nawr ac yn y dyfodol i gyfrannu i'r broses ar gyfer cynllunio a buddsoddi mewn gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn y dyfodol.

Testun pryder ychwanegol oedd y canfyddiad nad oes data digonol i ddangos y graddau y mae pobl hŷn yn gallu arfer eu hawl gyfreithiol i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol. Gan nad oedd data dibynadwy ar gael am y ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol, roedd yn rhaid defnyddio dull ansoddol i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae'n glir bod yr ystyriaethau sy'n ymwneud â darparu eiriolaeth annibynnol yn gymhleth ac yn aml yn gydgysylltiedig. Er hynny, rhaid gwneud rhagor i sicrhau bod pobl yn gallu derbyn eiriolaeth annibynnol gan gynnwys, ymysg pethau eraill, yr hyn y mae ganddynt hawl gyfreithiol i'w gael. Mae hyn yn hanfodol os ydym wedi ymrwymo i'r egwyddor bod hawl gan bawb i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd. Nid yn unig y bydd hyn yn beth da i bobl hŷn, ond bydd hefyd yn helpu i hyrwyddo'r agenda ar lesiant a gweithredu ataliol yng Nghymru.

Er mwyn delio â'r rhwystrau hyn, rwyf yn disgwyl gweld:

- Camau'n cael eu cymryd gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi'n ddigonol i fod yn ymwybodol o hawliau cyfreithiol i gael eiriolaeth annibynnol statudol ac i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gellir eu cael o eiriolaeth annibynnol. Rhaid i hyn gael ei ategu gan arweinyddiaeth gadarn i sefydlu diwylliant sy'n parchu llais yr unigolyn yn yr holl wasanaethau cyhoeddus.
- Estyn 'cynnig rhagweithiol' o eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a phobl hŷn sy'n aros am eu rhyddhau o'r ysbyty. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud hyn yn ofynnol er mwyn gwella'r cynnig o eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol.;
- Targedu'r rheini sydd â'r angen mwyaf am eiriolaeth annibynnol i sicrhau eu bod yn ymwybydol o'u hawliau a'r buddion y mae eiriolaeth annibynnol yn eu rhoi.
- Camau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i wella'r dull o gynllunio mewn perthynas â darparu eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol. Rhaid ategu hyn drwy sicrhau bod data dibynadwy ar gael i ddangos y cynnig a'r defnydd o eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol i gynnal y broses cynllunio.
- Camau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dangosyddion critigol i ddangos beth sy'n cael ei ystyried yn safon dda o ran y cynnig a'r gallu i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol.

Er bod y sefyllfa o ran y ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol yn newid drwy'r amser, daeth yn bryd ystyried pa gamau pellach sydd angen eu cymryd. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn dangos meysydd allweddol lle mae angen cymryd camau pellach. Os na chymerir y camau hyn, bydd y gallu i symud ymlaen â'r agenda ar lesiant yng Nghymru'n cael ei danseilio, gan wneud niwed i fywydau pobl hŷn ac i enw da gwasanaethau cyhoeddus.

Cefndir

Mae sicrhau bod barn pobl yn cael ei cheisio a'i rhoi ar ganol penderfyniadau'n ffactor allweddol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da. Mae gofyn am farn, ei chefnogi a rhoi statws iddi'n garreg sylfaen ar gyfer darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y person. Heb Eiriolaeth Annibynnol, ni fydd hyn yn cael ei wireddu i nifer mawr o bobl hŷn. Felly mae'n hanfodol sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael i bobl hŷn fel y gallant gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu bywydau.

“Mae eiriolaeth yn eich helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae'n helpu pobl i wneud penderfyniadau wrth eu pwysau.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Yn aml, dim ond angen rhywun i siarad â nhw sydd ar bobl, maen nhw am gael yr holl wybodaeth.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae'n briodol bod camau i roi'r dinesydd ar ganol y broses o ddarparu gwasanaethau yn sail i ddeddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016⁴. Mae'r egwyddor hon wedi'i hadlewyrchu hefyd yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n datgan bod hawl gan bob oedolyn i wneud ei benderfyniadau ei hun a hefyd yn yr egwyddorion hollgyffredinol ar gyfer 'grymuso a chynnwys' sydd wedi'u nodi ym Mesur Iechyd Meddwl 2010. Ar ben hynny, mae'r egwyddorion hyn o rymuso a chynnwys yn rhan annatod o'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol sy'n ategu Deddf 2014 ac wedi'u nodi'n benodol mewn nifer o'i hadrannau.

Roedd Rhaglen AdvantAGE⁵ o dan Gronfa Loteri Fawr Cymru, a ddechreuodd yn 2012, wedi darparu ffrwd ariannu sylweddol ar gyfer datblygu eiriolaeth gyda phobl hŷn yng Nghymru, gan ehangu'r sylfaen darparwyr yn sylweddol. Darparwyd yr adnoddau yr oedd eu hangen i alluogi'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n deall buddion eiriolaeth annibynnol i sicrhau'r gwasanaethau hynny, cyn i hynny ddod yn orfodol o dan ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, gan na ellir defnyddio arian loteri i gyllido gwasanaethau statudol, nid oedd modd defnyddio'r cyllid hwn at ddim heblaw sbarduno'r sylfaen gwasanaethau a fydd yn dod yn gyfrifoldeb i'r sector cyhoeddus yn y pen draw. Daeth y cyllid hwn i ben yn 2016 ac mae nifer y gwasanaethau eiriolaeth i bobl hŷn wedi gostwng⁶.

4 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

5 <https://www.biglotteryfund.org.uk/global-content/programmes/wales/advantage>

6 Pwysigrwydd Eiriolaeth 5, Age Cymru (Rhaglen yr Edau Euraid), Tachwedd 2016

Beth yw eiriolaeth annibynnol a pham mae'n bwysig i bobl hŷn?

Gall pob un ohonom, mewn unrhyw oed neu ar unrhyw adeg, gael bod arnom angen cymorth. Mae nifer mawr o bobl hŷn, yn enwedig y rheini sy'n fwyfwy agored i niwed oherwydd eu sefyllfa neu gyflwr meddygol, a fydd ag angen cymorth er mwyn i'w llais gael ei glywed. Mae'r newid o annibyniaeth i gyd-ddibyniaeth, o ganlyniad i anghenion cynyddol am ofal a chymorth, yn gallu arwain at golli pŵer ac awdurdod personol gan nifer mawr o bobl hŷn, ac mae hyn yn gallu cael effaith sylweddol ar eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u llesiant cyffredinol. Gall hefyd eu rhoi mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin.

Mae eiriolaeth annibynnol yn cwmpasu pob dim o ddarparu cefnogaeth emosiynol i bobl sy'n gallu siarad drostynt eu hunain i gynrychioli ac 'eirioli' yn fwy ffurfiol ar ran rhywun nad yw'n gallu mynegi ei farn a'i anghenion. Ar gyfer rhai pobl hŷn, bydd eiriolaeth annibynnol yn hanfodol i'w galluogi i gadw pŵer a rheolaeth bersonol ar eu bywyd.

“Y pethau bach sy'n dadbersonoli pobl.” – Rhanddeiliad

“Roedd e'n fy helpu i gael Horlicks ac i droi at y newyddion am 10 o'r gloch y nos” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth a phreswylydd cartref gofal

Mae gwahaniaeth rhwng eiriolaeth annibynnol a darparu cyngor a chymorth. Ni fydd eiriolwr annibynnol yn ceisio cynghori'r person, dweud wrtho pa benderfyniad i'w wneud neu beth fyddai orau iddo. Yn lle hynny, mae eiriolaeth annibynnol yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn cael eu gwneud gan yr unigolyn ei hun, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol bosibl. Hyd yn oed os bydd rhywun heb alluedd neu'n profi galluedd amrywiol, bydd yr eiriolwr annibynnol yn ceisio meithrin perthynas â'r unigolyn i sicrhau ei fod yn gallu ffurfio barn annibynnol am yr hyn a fyddai o'r budd pennaf i'r person hwnnw.

“Egluro pethau mewn ffordd wahanol – dyna brif rôl eiriolaeth.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Bydd gan nifer mawr o bobl hŷn aelod o'r teulu neu ffrind sy'n gallu gweithredu fel eiriolwr drosto ac mae'r cymorth a geir gan yr eiriolwyr anffurfiol hyn yn gallu bod yn amhrisiadwy. Fe geir amgylchiadau weithiau, fodd bynnag, lle na fyddai'n briodol i ffrind neu aelod o'r teulu eirioli dros rywun, yn enwedig os yw'r person yn gysylltiedig ag ymchwiliad diogelu neu os yw'n bendant ei farn ac yn debygol o ddylanwadu ar benderfyniadau ar gyfer y person y mae'n eirioli drosto. Hefyd, gall materion godi weithiau sydd o natur bersonol iawn na fydd yr unigolyn sydd ag angen eiriolwr yn

dymuno eu rhannu â rhywun sy'n agos iddo. Mewn achosion fel hyn, mae'n bwysig cynnal hawl y person i breifatrwydd⁷.

Yn wahanol i'r eiriolaeth anffurfiol a ddarperir yn aml gan y teulu neu ffrindiau, mae gan eiriolwyr annibynnol wybodaeth fanwl am wasanaethau cyhoeddus a'r gwahanol fframweithiau cyfreithiol ar eu cyfer, a gall hyn fod yn amhrisiadwy. Byddaf yn gweld enghreifftiau drwy'r amser yn fy ngwaith achosion lle nad oedd pobl hŷn a'u teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliau neu'r ffordd i ymwneud â'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol: roedd hyn yn lleihau eu gallu i eirioli'n effeithiol dros eu hanwyliaid a herio'r penderfyniadau a wnaed.

Mewn rhai achosion, bydd gweithwyr proffesiynol, fel gweithwyr cymdeithasol neu reolwyr cartref gofal, yn eirioli dros rywun yn rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd, ac mae'n briodol iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, fe geir amgylchiadau lle na fydd hyn yn briodol a lle mae angen eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod llais y person dan sylw'n cael ei gyfleu gan rywun sy'n hollol annibynnol. Bydd yr eiriolwr annibynnol yn sicrhau bod barn a dymuniadau'r person yn cael eu cyfleu beth bynnag ydynt – nid rôl yr eiriolwr annibynnol yw penderfynu beth sydd orau i'r person. O gofio'r cyfyngiadau a ffiniau y mae llawer o weithwyr proffesiynol yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, bydd unigolyn yn aml yn siarad yn fwy agored ag eiriolwr annibynnol, am ei fod yn gweld ei fod yn sefyll ar wahân i wasanaethau statudol.

“Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn gweld gwerth eiriolwyr – yn enwedig os yw barn y teulu'n wahanol.” - Rhanddeiliad

Mae gwybodaeth arbenigol yr Eiriolwr Annibynnol am hawliau cyfreithiol yr unigolyn yn amhrisiadwy ar ei phen ei hun ond, o'i chyfuno â'i brofiad helaeth a'i sgiliau ar gyfer cyfathrebu â'r unigolyn i gael gwybod ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau i'w helpu i benderfynu beth fydd y penderfyniad gorau ar ei gyfer, mae'n glir pam mae eiriolaeth annibynnol yn wasanaeth mor hanfodol – fel gwasanaeth ataliol ac fel ymyriad critigol.

“Dyw pobl ddim yn gwybod eu hawliau – yn enwedig o ran diogelu.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Fyddai'r rhan fwyaf o bobl ddim yn gwybod nad ydyn nhw'n cael yr hyn ddylen nhw.” – Rhanddeiliad

“Mae eiriolwr yn rhoi mwy o bŵer i'r person – weithiau drwy ddim ond bod yn yr ystafell.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

⁷ Deddf Hawliau Dynol 1998, Erthygl 8

Fy ngwaith ar eiriolaeth annibynnol

Sicrhau bod llais gan bobl hŷn yw un o'r themâu cyson yn fy ngwaith fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yn yr adroddiad cyntaf a gyhoeddais yn 2012, 'Llais, Dewis a Rheolaeth'⁸, nodwyd nad oedd dealltwriaeth na defnydd eang o eiriolaeth annibynnol, a bod diffyg cysondeb ledled Cymru yn y dull o ddarparu eiriolaeth annibynnol. Dangoswyd nad oedd pobl hŷn yn cael digon o gymorth yn aml ar adeg gwneud penderfyniadau pwysig ac nad oedd pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn cael cymorth priodol yn aml i beri i'w llais gael ei glywed. Cymerwyd camau ar nifer o'r argymhellion ers cyhoeddi'r adroddiad, sydd wedi'u croesawu a'u cefnogi gennyf fi, fel yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i roi eiriolaeth annibynnol ar sail statudol, yn dilyn yr alwad gennyf yn 'Llais, Dewis a Rheolaeth' am wella'r ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol drwy ei chynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Ar ôl nodi'r pryderon roeddwn wedi'u codi mewn perthynas ag achosion lle'r oedd pobl hŷn yn fwyaf tebygol o fod ag angen cymorth drwy eiriolaeth annibynnol, derbyniais gais gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i arwain grŵp o arbenigwyr ar ddatblygu 'Achos Busnes dros Wasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru'⁹ i gynghori Llywodraeth Cymru ar gyflwyno gwasanaeth eiriolaeth cynhwysfawr i bobl hŷn, gan weithredu ar yr ymrwymiad a wnaed yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu¹⁰. Roedd yr Achos Busnes dros Wasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru yn rhoi disgrifiad clir o'r sefyllfaoedd lle mae'n rhaid ystyried anghenion pobl hŷn am eiriolaeth annibynnol¹¹, ac wedi galw am gynnwys hyn yn y ddeddfwriaeth newydd a'r cynnig o eiriolaeth annibynnol.

Ochr yn ochr â hyn, cynhaliais adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal a chyhoeddais fy nghanfyddiadau yn 2014 yn fy adroddiad 'Lle i'w Alw'n Gartref?'¹², a oedd hefyd yn tynnu sylw at yr angen am roi'r gallu i bobl hŷn dderbyn gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, yn enwedig ar adeg gwneud penderfyniadau pwysig, fel rhai ynghylch symud i gartref gofal, ac yn ystod prosesau diogelu. Felly roeddwn yn falch o nodi'r ddyletswydd hollgyffredinol i 'roi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau,

8 Llais, Dewis a Rheolaeth, Argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth annibynnol dros Gymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Medi 2012

9 Achos Busnes dros Wasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Mai 2014

10 Paragraff 3.45, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2011

11 Pan fydd person hŷn yn profi neu mewn perygl o brofi cam-drin neu esgeuluso, pan fydd cartref gofal yn cau, pan fydd angen cymorth ar berson hŷn i'w helpu i adael ysbyty (Achos Busnes dros Eiriolaeth)

12 Angen Gweithredu 1.6, Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Tachwedd 2014

yn enwedig pan fo gallu'r unigolyn i gyfathrebu wedi ei gyfyngu am unrhyw reswm¹³ yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth, sy'n nodi'n glir y pwyntiau lle mae'n rhaid ystyried angen y person am eiriolaeth annibynnol, yn cynnwys yn ystod prosesau diogelu, ar adeg asesu anghenion y person am ofal a chymorth a phan fydd Cynllun Gofal a Chymorth yn cael ei lunio.

Yn 2012, tynnais sylw at yr angen i Awdurdodau Lleol bennu llinell sylfaen yn y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol a'r angen am eiriolaeth annibynnol yn y dyfodol yn y meysydd lle maent yn gweithredu¹⁴, a chymerwyd camau ar hyn drwy'r gofyniad o dan Ddeddf 2014 i gynnwys y ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol mewn Aseidiadau Poblogaeth¹⁵. Gelwais hefyd am fframwaith comisiynu clir a chyson ar gyfer eiriolaeth annibynnol, ac mae hyn wedi arwain at y gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd i ddatblygu a gweithredu Fframwaith Comisiynu ar gyfer Eiriolaeth¹⁶, gyda chymorth y Prosiect Eirioli Edau Euraid.

Yn ogystal â Deddf 2014, mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 hefyd wedi ymateb i'm hargymhellion ar eiriolaeth annibynnol, ac rwyf wedi croesawu hyn. Roedd Llais, Dewis a Rheolaeth¹⁷ yn galw am sicrhau bod pobl hŷn sy'n ystyried symud i leoliad gofal yn cael gwybodaeth am y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a oedd ar gael ar y pryd a manylion am sut i'w derbyn: cymerir camau ar y meysydd hyn drwy weithredu'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig¹⁸ o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn Ebrill 2018. Mae Deddf 2016 hefyd yn cyflwyno rheoleiddio ar wasanaethau eiriolaeth, drwy reoliadau sydd i'w cyhoeddi ar gyfer ymgynghori y gwanwyn hwn. Er bod gwaith yn mynd ymlaen o hyd yn y maes hwn i ddiffinio ymhellach y mathau o eiriolaeth a fydd yn cael eu rheoleiddio, rwyf wedi croesawu'r bwriad i gyflwyno rheoliadau gan ei fod yn ymateb i'm canfyddiad yn 'Llais, Dewis a Rheolaeth'¹⁹ fod diffyg arolygu a monitro cyson a chynhwysfawr ar y ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol.

Mae'n glir bod llawer o waith ar y gweill yng Nghymru mewn perthynas ag eiriolaeth ac rwyf yn croesawu'r ffaith bod camau'n cael eu cymryd nawr ar nifer o'm hargymhellion. Er hynny, rwyf yn parhau i graffu'n fanwl ar Ddeddf 2014 a Deddf 2016. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys fy aelodaeth o Grwpiau Technegol Llywodraeth

13 Adran 6(2)(d), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

14 Llais, Dewis a Rheolaeth, Argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth annibynnol dros Gymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Medi 2012

15 Pecyn Cymorth Aseiad Poblogaeth, Asiantaeth Gwellu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Ebrill 2016

16 Implementing the Code of Practice on Advocacy: Self-Assessment Tool for Commissioners, Golden Thread Advocacy Programme – ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, Tachwedd 2016

17 Llais, Dewis a Rheolaeth, Argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth annibynnol dros Gymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Medi 2012

18 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

19 Llais, Dewis a Rheolaeth, Argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth annibynnol dros Gymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Medi 2012

Cymru i gynghori ar ddatblygu'r Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth²⁰ ac, yn fwy diweddar, ar ddatblygu rheoliadau ar gyfer eiriolaeth annibynnol o dan Ddeddf 2016 yn ogystal â'm sylwebaeth fanwl wrth ddatblygu Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig²¹, a mae'n gosod mwy o ofynion mewn perthynas ag eiriolaeth mewn cartrefi gofal o Ebrill 2018 ymlaen.

Mae enghreifftiau'n codi'n gyson hefyd yn fy ngwaith achosion lle gwrthodwyd llais i bobl hŷn, lle na ystyriwyd eu hangen am eiriolaeth annibynnol neu lle diystyrwyd eu hawl gyfreithiol i'w chael. Mae nifer mawr o'r bobl rwyf yn eu cynorthwyo'n teimlo eu bod wedi'u hamddifadu o'u hawl i wneud dewisiadau am y pethau sy'n effeithio ar eu bywyd. Maent yn teimlo bod eu pryderon yn cael eu gweld yn amherthnasol ac nad yw eu llais wedi'i glywed, a bod hynny'n arwain at gymryd camau sy'n groes i'w dymuniadau. Yn Hydref 2017, cyhoeddais fy ail Lyfr Achosion²², a oedd yn dangos bod natur gymhleth ac ymestynnol y gweithdrefnau mewn cyrff cyhoeddus yn aml yn peri i bobl deimlo bod y prosesau wedi'u dyfeisio er budd y sefydliadau yn hytrach nag i gynnal eu hawliau; bod natur aneffeithiol y cyfathrebu'n peri i bobl hŷn deimlo eu bod yn ddiymadferth a'u bod yn cael eu hanwybyddu; a bod y diffyg dealltwriaeth o effaith y penderfyniadau a wneir ar fywydau pobl yn peri i bobl hŷn deimlo eu bod yn cael eu cau allan o brosesau penderfynu a'u gwrthio i'r ymylon gan weithwyr proffesiynol, yn hytrach na'u bod yn bartner cyfartal fel y mae ganddynt hawl i fod.

“Roedd hi'n fy helpu i siarad mewn cyfarfodydd – cefnogaeth ychwanegol. Mae hyn yn rhoi hyder i mi siarad drosaf i fy hun.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Roedd yr eiriolaeth wedi fy helpu i wybod fy hawliau.” – Gofalwr a Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

20 Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

21 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

22 Llyfr Achosion y Comisiynydd: Hydref 2017, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Y Prif Ganfyddiadau

1. Mae diffyg dealltwriaeth o eiriolaeth annibynnol a hawliau pobl i'w derbyn

Mae eiriolaeth annibynnol yn gallu helpu pobl mewn amgylchiadau lle maent yn agored i niwed i gael llais, dewis a rheolaeth, yn ogystal â helpu i sicrhau bod llais y person yn cael ei glywed a'i fod yn cael ei hysbysu am ei hawliau cyfreithiol. Felly mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn llwyr ymwybodol o'r hawliau i gael eiriolaeth o dan y gyfraith. Mae hefyd yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall beth all ac na all eiriolaeth annibynnol ei wneud. Er bod eiriolaeth annibynnol yn gallu cynnwys cefnogaeth emosiynol i bobl nad ydynt yn gallu siarad drostynt eu hunain, mae'n aml yn cynnwys cynrychioli ac 'eirioli' yn ffurfiol ar ran person nad yw'n gallu mynegi ei farn a'i anghenion, gan chwarae rhan hollbwysig mewn gwella bywydau pobl hŷn drwy eu galluogi i fwynhau hawliau, dewisiadau a diddordebau. Nid yw eiriolwyr annibynnol yn rhoi eu barn eu hunain – maen nhw'n cyfleu llais yr unigolyn.

Mae'n glir bod gwybodaeth gweithwyr proffesiynol am rôl eiriolaeth annibynnol a'r buddion y mae'n gallu eu rhoi, ynghyd â dealltwriaeth o'r hawl gyfreithiol i gael eiriolaeth annibynnol statudol, yn ffactorau pwysig o ran galluogi person i dderbyn eiriolaeth annibynnol neu ei atal rhag ei derbyn. Mae hyn yn bwysicach byth os nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau.

1.1 Nid yw'r holl weithwyr proffesiynol yn deall y buddion o gael llais

Roedd darparwyr eiriolaeth ledled Cymru yn glir bod y gallu i dderbyn gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn amrywio ledled Cymru ac o fewn ardaloedd lleol. Roeddent yn glir bod y tebygolrwydd i rywun gael ei atgyfeirio am eiriolaeth annibynnol yn dibynnu'n bennaf ar y gweithiwr proffesiynol cysylltiedig (e.e. gweithiwr cymdeithasol) a'i farn am eiriolaeth annibynnol a'r buddion y mae'n gallu eu rhoi.

“Byddwch chi'n gwybod pan fyddwch chi ar ward lle dydyn nhw ddim yn deall eiriolaeth.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae'n dibynnu pa mor dda yw'r gweithiwr cymdeithasol pa un a fyddwch chi'n cael eiriolwr neu beidio.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Ar wahân i'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n deall pob agwedd ar rôl eiriolaeth annibynnol a'i rhan mewn helpu pobl i sicrhau eu canlyniadau arfaethedig, cyfeiriodd eiriolwyr at grŵp o weithwyr proffesiynol a oedd wedi cael eu darbwylllo i ddefnyddio eiriolaeth annibynnol ar ôl cael profiad uniongyrchol o'r gwahaniaeth y mae'n

gallu ei wneud. Teimlwyd bod llawer o amser ac ymdrech yn cael ei roi at feithrin cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau statudol am fod hynny'n cael ei weld yn hanfodol i newid y diwylliant mewn gwasanaethau cyhoeddus a chynyddu'r defnydd o eiriolaeth annibynnol. Er hynny, mynegwyd pryderon am y ffordd y mae trosiant staff yn gallu tanseilio'r gwaith hwn a theimlwyd bod hyn yn dangos yr angen am newid systemig mewn diwylliant mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol yn yr holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol.

“Rydych chi'n teimlo drwy'r amser fod rhaid i chi gyfiawnhau'ch gwaith.”

– Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae'r cyswllt yn ysbeidiol pan ydych chi'n gweithio ar achos. Mae'n dibynnu ar bersonoliaethau. Mae mwy o ewyllys i weithio gydag eiriolwyr ar lefel uwch ond y rheng flaen yw'r broblem yn aml – mae ganddyn nhw agwedd fwy nawddoglyd.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae lefel y cyswllt yn amrywio yn ôl pwy yw'r gweithiwr cymdeithasol. Weithiau fyddwn ni ddim yn cael ein gwahodd i gyfarfod yn uniongyrchol – rhaid i ni gael gwybod gan y cleient. Mae'r diwylliant yn dechrau newid. Mae hyn yn ganlyniad yn rhannol i'r gwasanaeth proffesiynol y mae eiriolwyr wedi'i ddarparu sydd wedi galluogi gweithwyr cymdeithasol i weld y manteision o gynnwys eiriolaeth. Mae eiriolwyr wedi helpu i newid y diwylliant.”

– Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Er bod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran wedi dweud bod y diwylliannau'n newid yn araf wrth i ganfyddiad cywirach o eiriolaeth annibynnol godi ymysg gweithwyr proffesiynol, roedd yn glir bod y defnydd o eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol yn amrywio o le i le ar hyn o bryd. Dywedodd darparwyr eiriolaeth fod nifer mawr o atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn ystod camau olaf yr achos, lle mae'r sefyllfa wedi gwaethygu nes troi'n argyfwng, yn hytrach na bod cyrff statudol yn gwneud atgyfeiriadau fel ffordd ragweithiol i sicrhau canlyniadau arfaethedig yr unigolyn.

“Y duedd yw ein bod yn cael ein galw pan fydd rhywun wedi cyrraedd argyfwng. Fel arfer bydd y cyfarfod maen nhw am i chi ddod iddo'n cael ei gynnal y diwrnod wedyn. Mae'r gwasanaethau'n disgwyl i chi ymateb cyn gynted â phosibl.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn rhagorol, ond mae eraill yn gadael yr achosion anodd i chi. Rydyn ni'n cael ein gweld fel y dewis olaf i gael trefn ar bethau.” –Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Yn draddodiadol mae'n cael ei weld yn rhywbeth i'w ddefnyddio pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le.” – Comisiynydd

“Byddwn ni’n cael atgyfeiriadau’n aml pan fydd pethau wedi mynd yn anodd iddyn nhw [gwasanaethau statudol].” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae hyn yn dangos nad oes dealltwriaeth gyson o eiriolaeth annibynnol neu nad yw wedi’i chynnwys bob amser mewn arferion gweithio rheolaidd fel ffordd i sicrhau bod yr unigolyn yn cymryd rhan yn y broses penderfynu o’r dechrau. Ar ôl cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn Ebrill 2016, nid mater o arfer da yn unig yw cynnwys yr unigolyn mewn penderfyniadau am ei ofal a’i gymorth, ond deddf gwlad. Mae’n ofynnol i weithwyr proffesiynol ystyried angen y person am eiriolaeth ar bwyntiau penodol drwy gydol ei gyswllt â gwasanaethau cymdeithasol, rhwng cyrchu gwybodaeth ac adolygu’r Cynllun Gofal a Chymorth. Yn hyn o beth, mae’r gyfraith yn glir.

Felly gellid disgwyl gweld effaith glir ar atgyfeiriadau i ddarparwyr eiriolaeth annibynnol ar ôl cyflwyno Deddf 2014. Fodd bynnag, roedd nifer o ddarparwyr eiriolaeth wedi mynegi pryderon nad yw’r Ddeddf wedi gwneud dim neu nemor ddim gwahaniaeth mewn arferion gweithio a lefel yr atgyfeiriadau y maent yn eu cael.

“Mae eiriolaeth yn ôl-ystyriaeth.” – Comisiynydd

“Dyw nifer yr atgyfeiriadau gan wasanaethau cymdeithasol ddim wedi codi o ganlyniad i’r Ddeddf.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Roedden ni’n brysurach cyn i’r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae pethau wedi gwaethygu ers cyflwyno’r ddeddfwriaeth – ond mater o gynyw hyn.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Dyw nifer yr atgyfeiriadau gan wasanaethau cymdeithasol ddim wedi codi o ganlyniad i’r Ddeddf.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae hyn yn peri pryder, yn enwedig yng nghyswllt pobl hŷn, sef prif ddefnyddwyr gwasanaethau gofal a chymorth²³ a rhai sy’n fwy tebygol o fod ag angen cymorth gan eiriolwr annibynnol. Yn fwy na hynny, mae prinder ymddangosiadol y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i gynnal yr egwyddor hollgyffredinol o sicrhau bod pobl yn cael llais yn tanseilio ysbryd Deddf 2014.

Roedd fy adroddiad ‘Llais, Dewis a Rheolaeth’²⁴ yn dangos bod eiriolaeth annibynnol yn aml yn cael ei gweld yn gyfystyr â datrys anghydfodau a chwynion. Er ei bod i’w disgwyl y bydd Awdurdodau Lleol yn arfer barn broffesiynol hyd yn oed wrth weithio o fewn paramedrau cydgynhyrchu, dywedodd darparwyr eiriolaeth fod rhai

²³ Data’r Datganiad Ystadegol Cyntaf, Adults receiving care and support in Wales, 2016-17 (Experimental statistics) a Data’r Datganiad Ystadegol Cyntaf yn ymwneud â phlant sy’n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran, 2016-17 (Experimental statistics)

²⁴ Llais, Dewis a Rheolaeth, Argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth annibynnol dros Gymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Medi 2012

gweithwyr proffesiynol yn fwy agored i her a chraffu na'i gilydd mewn perthynas â'u penderfyniadau am bobl.

“Mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn amheus o eiriolwyr.” – Comisiynydd

“Mae pobl yn aml yn meddwl mai pwrpas eiriolwyr yw achosi trafferth.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae staff yn amddiffynnol yn aml.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Rhaid i eiriolaeth annibynnol gael ei gweld gan weithwyr proffesiynol yn ffordd i sicrhau bod llais y person yn cael ei glywed yn y broses penderfynu ac yn nid yn 'ffordd o wneud eu gwaith yn fwy anodd'. Yn aml, mae'r gwerth a roddir ar eiriolaeth annibynnol yn gyfystyr â'r gwerth a roddir ar leisiau pobl ymysg arweinwyr y sefydliad ac mewn negeseuon corfforaethol. Mae'n amlwg y bydd barn y gweithiwr proffesiynol am bwrpas eiriolaeth annibynnol a'r gwerth y mae'n ei roi ar farn y person, yn cynnwys y graddau y mae'n arfer y gofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf 2014 i ragdybio mai'r person sydd yn y lle gorau i farnu beth sydd orau iddo²⁵, yn effeithio ar ei benderfyniad ynghylch a fydd a pha bryd y bydd yn cynnig cymorth gan eiriolwr annibynnol.

“Partneriaid cyfartal ar y cyfan – mae rhai'n teimlo bod eiriolwyr yn bobl fusneslyd.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Bydd pobl yn meddwl ‘dim ond yr eiriolwr yw hwnnw, does dim angen iddo ddod’.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Bydd rhai'n gofyn i mi stopio siarad am eu bod nhw am glywed y cleient yn siarad. Os bydd y cleient yn gweld rhywun yn rhoi taw ar yr eiriolwr, sut bydd hi'n teimlo wedyn?” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Os yw sefydliadau'n edrych yn negyddol ar eiriolaeth, mae'n amlwg nad ydyn nhw'n gweld gwerth llais yr unigolyn.” – Rhanddeiliad

Bydd llawer o weithwyr proffesiynol yn eirioli dros bobl yn rhan o'u rôl bob dydd, ac mae'n briodol iddynt barhau i wneud hynny. Fodd bynnag, oherwydd rôl a/neu swydd y gweithiwr proffesiynol, ni fydd yn gallu bod yn gwbl annibynnol. Pe byddai gweithiwr proffesiynol yn gweithredu fel eiriolwr pan wneir penderfyniad, fel un i asesu anghenion gofal a chymorth, byddai hynny'n atal yr unigolyn rhag bod yn bartner cyfartal yn y broses penderfynu, a byddai hynny'n groes i'r gofyniad am sgwrs ddwyffordd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal â hynny, roedd darparwyr eiriolaeth yn gallu cynnig nifer mawr o astudiaethau achos o enghreifftiau lle nad oedd y gweithiwr proffesiynol, am resymau dilys yn ôl pob tebyg, yn gallu gwrando ar farn y person am beth oedd er y

²⁵ Adran 6(3)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

budd pennaf iddo a gweithredu ar sail hynny am fod ei farn broffesiynol am yr hyn a fyddai orau i'r person yn dod o flaen barn yr unigolyn.

“Roedd yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall mai gwaith yr eiriolwr yw helpu'r person i gyfleu ei ddymuniadau, beth bynnag ydyn nhw.”

– Comisiynydd

Er na fydd dilyn dymuniadau'r person bob amser 'er y budd pennaf' i'r person hwnnw, cydnabod ei hawl i wneud ei benderfyniad ei hun, er y gallai fod yn annoeth, yw egwyddor sylfaenol Deddf 2014 ac mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw rôl yr eiriolwr annibynnol, boed hwnnw'n statudol neu anstatudol.

“Bydd pobl yn gofyn i eiriolwyr am eu barn eu hunain. [Byddan nhw'n dweud] ‘dydych chi ddim yn gweld pa mor wirion yw'r peth maen nhw am ei gael?’”

– Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Yn aml chi yw'r un cyntaf i wrando arnyn nhw heb ddweud wrthyn nhw beth ddylen nhw ei wneud.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

1.2 Mae dryswch ar hyn o bryd ynghylch beth yw a beth nad yw eiriolaeth annibynnol

Roedd trafodaethau â darparwyr eiriolaeth yn dangos bod rhywfaint o ddryswch ar hyn o bryd ymysg gweithwyr proffesiynol ynghylch beth mae 'eiriolaeth annibynnol' yn ei olygu. Mae llawer o ddarparwyr eiriolaeth yn glir ynghylch y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu a beth allant a beth na allant ei wneud dros eu cleientiaid o dan adain eiriolaeth annibynnol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau sy'n darparu cymorth cyfeillio a help i lenwi ffurflenni, er eu bod yn hollbwysig, yn cynnig cymorth sy'n sylfaenol wahanol i'r ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol.

O ganlyniad i hynny, mae'n bosibl bod y syniad niwlog sydd gan rai darparwyr ynghylch beth mae gwasanaeth eiriolaeth annibynnol yn ei wneud yn ychwanegu at y dryswch ymddangosiadol ymysg gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau cyhoeddus a gall hyn egluro'r lefel uchel o atgyfeiriadau amhriodol y mae darparwyr eiriolaeth yn eu cael. Dywedodd nifer ohonynt eu bod yn aml yn cael atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol, fel gweithwyr cymdeithasol, i helpu unigolion mewn ffyrdd a oedd yn anghyson â'u rôl fel eiriolwr annibynnol.

“Ceisiadau i eiriolwyr lenwi ffurflenni budd-daliadau ar ran pobl – mae nifer mawr yr atgyfeiriadau amhriodol yn dangos nad yw pobl yn gwybod beth yw eiriolaeth/beth rydym yn ei wneud.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Efallai y bydd y gair 'eiriolaeth' ar eu taflenni, ond cyfeillio yw eu gwaith.”

– Comisiynydd

Felly mae angen rhagor o eglurder mewn gwasanaethau cyhoeddus ac ymysg rhai darparwyr ynghylch ystyr y term eiriolaeth annibynnol.

Yn ogystal â hyn, dywedodd darparwyr eiriolaeth fod lefelau uwch o achosion cymhleth lle'r oeddent yn darparu cymorth ar ben eu gwasanaethau eiriolaeth, am nad oedd gwasanaethau cymorth eraill ar gael, er mwyn sicrhau bod y bobl y maent yn gweithio gyda nhw yn cael cymorth digonol. Mae hyn yn codi rhagor o gwestiynau ynghylch diwylliant sefydliadau a'r buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, fel gwasanaethau cymorth sy'n gweithio ochr yn ochr ag eiriolaeth annibynnol i sicrhau bod yr unigolyn yn gallu cymryd y camau sydd eu hangen i gael canlyniad arfaethedig.

“Y bobl hynaf un sy'n cael eiriolaeth gan mwyaf. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion yn gymhleth.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

1.3 Nid yw gweithwyr proffesiynol yn deall hawliau cyfreithiol i dderbyn eiriolaeth

Mae Deddf 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i wrando ar farn, dymuniadau a theimladau²⁶ pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth. Mae hyn yn cwmpasu'r holl gamau y mae Awdurdod Lleol yn eu cymryd mewn perthynas â darparu gofal a chymorth i unigolion. Mae 'dyletswyddau hollgyffredinol'²⁷ ychwanegol sydd wedi'u nodi yn Neddf 2014 hefyd yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i ragdybio mai'r person yn hytrach na'r gweithiwr proffesiynol sydd yn y lle gorau i farnu beth sydd orau iddo²⁸ ac i hyrwyddo annibyniaeth y person lle bo modd²⁹.

Ar ben hyn, ac yn bwysig yng nghyswllt eiriolaeth annibynnol, y mae'r ddyletswydd gyfreithiol a nodwyd yn Neddf 2014 sy'n datgan bod rhaid i Awdurdodau Lleol:

“...roi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, yn enwedig pan fo gallu'r unigolyn i gyfathrebu wedi ei gyfyngu am unrhyw reswm.”³⁰

Y dyletswyddau hyn, ynghyd â'r darpariaethau yn y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth o dan Ddeddf 2014³¹, sy'n cyflawni egwyddor sylfaenol 'llais a rheolaeth'³² y ddeddfwriaeth ac yn gosod y sail ar gyfer cynnwys eiriolaeth annibynnol fel agwedd hanfodol

26 Adran 6(2)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

27 Adran 6(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

28 Adran 6(3)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

29 Adran 6(3)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

30 Adran 6(2)(d) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

31 Paragraff 50, Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

32 Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2011

ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth³³ yn cyfarwyddo Awdurdodau Lleol i 'ystyried anghenion eiriolaeth'³⁴ ar bwyntiau penodol yn ystod cyswllt y person â gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng y ddyletswydd hon i 'ystyried anghenion eiriolaeth' a'r hawl gyfreithiol i gael eiriolaeth annibynnol, er bod hon yn gymwys mewn amgylchiadau penodol, sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth arall, fel Deddf Galluedd Meddyliol 2005, sy'n darparu hawl gyfreithiol i gael gwasanaeth Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA) a Mesur Iechyd Meddwl 2010 sy'n darparu hawl gyfreithiol i gael gwasanaeth Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol.

Mae'r nifer mawr o hawliau cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag eiriolaeth annibynnol yn fwy cyffredinol yn gallu peri dryswch i weithwyr proffesiynol os na fyddant wedi'u hyfforddi'n drwyadl yn y maes hwn. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), sy'n helpu'r gweithlu gofal cymdeithasol i fod y gorau y gall fod³⁵, wedi datblygu amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi i gyd-fynd â gweithredu Deddf 2014 ac roedd gwerthusiad annibynnol diweddar o ail flwyddyn y Cynllun Dysgu a Datblygu Cenedlaethol³⁶, a oedd yn ymwneud yn bennaf â chyflwyno hyfforddiant craidd ar gyfer y gweithlu a darparu deunyddiau dysgu mwy arbenigol, yn dangos bod bron 12,000 o fodiwlau hyfforddi craidd wedi'u cwblhau yn 2016-17 a bod mwyafrif y modiwlau wedi'u cwblhau gan unigolion sy'n cael eu cyflogi gan Awdurdodau Lleol³⁷. Mae'r adroddiad ar y gwerthusiad hefyd yn nodi ei bod yn debygol bod mwy na 12,000 o unigolion³⁸ wedi cwblhau rhai os nad y cwbl o'r modiwlau craidd, a nododd mai cyrhaeddiad y rhaglen yw un o brif gryfderau ei model darparu³⁹.

Er nad yw'r adroddiad yn darparu data cymharol am y niferoedd yn y gweithlu sydd angen eu hyfforddi ar Ddeddf 2014, gan dderbyn bod bron 3,900⁴⁰ o weithwyr cymdeithasol yn cael eu cyflogi gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru, mae'r nifer y cofnodwyd eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn ymddangos yn gadarnhaol. Nid yw'n glir beth yw nifer y staff heblaw gweithwyr cymdeithasol sy'n cyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf 2014, ac sydd felly ag angen eu hyfforddi hefyd (gall hyn gynnwys staff sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, er enghraifft).

33 Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

34 Paragraff 50, Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

35 <https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni>

36 Can't find this - need to email SCW

37 2016-17 evaluation of the resource and learning programme for the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Mai 2017, ICF Consulting Services

38 "The figure of 12,000 core training modules completed is a sum of the total number of individuals completing each of the five core training modules. Therefore the total does not represent the number of individuals who have completed all or some of the core module training.", 2016-17 evaluation of the resource and learning programme for the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Mai 2017, ICF Consulting Services

39 Tudalen 6, 2016-17 evaluation of the resource and learning programme for the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Mai 2017, ICF Consulting Services

40 Roedd bron 3,900 o weithwyr cymdeithasol yn cael eu cyflogi mewn awdurdodau lleol ar ddiwedd Mawrth 2016, Social Worker Workforce Planner, 2015-16: A National Report of the Social Worker Workforce in Wales, Cyngor Gofal Cymru, Mawrth 2017

Mae modiwlau hyfforddi craidd GCC ar Ddeddf 2014 yn cynnwys cyflwyniad a swyddogaethau cyffredinol, asesu a chwrdd ag anghenion a diogelu sydd i gyd yn feysydd allweddol mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad ar y gwerthusiad yn gwahaniaethu rhwng lefelau'r hyfforddiant ym mhob modiwl craidd – Lefel A a Lefel B. Mae Hyb Dysgu GCC yn nodi bod deunyddiau Lefel A yn cynnwys crynodebau o'r negeseuon allweddol a'u bod yn addas i'r holl rolau ar draws y sector i ddarparu trosolwg ar y prif newidiadau⁴¹, a bod hyfforddiant Lefel B yn darparu dysgu manwl sydd â'r amcan o helpu i weithredu newid⁴². Er bod deunyddiau Lefel A yn cyfeirio at eiriolaeth, mae'r wybodaeth yn fyr ac nid yw'n cyfeirio at y pwyntiau lle dylid ystyried yr angen am eiriolaeth annibynnol h.y. dyletswyddau cyfreithiol yr Awdurdod Lleol; mae gwybodaeth fwy manwl o lawer yn y deunyddiau Lefel B am ddarparu eiriolaeth o dan Ddeddf 2014, ac mae hyn yn gadarnhaol. Er hynny, nid yw'n glir o ddarllen yr adroddiad ar y gwerthusiad beth oedd lefel y deunyddiau hyfforddi a ddefnyddiwyd i hyfforddi'r gweithlu.

Yn ogystal â hyn, mae tystiolaeth a gafwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn dangos mai dim ond 69 o gynrychiolwyr sydd wedi mynychu'r Dosbarth Meistr ar Eiriolaeth hyd yn hyn. Er bod deunyddiau dysgu cynhwysfawr am eiriolaeth hefyd ar gael ar Hyb Dysgu GCC, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r deunyddiau hyn wedi'u defnyddio i hyfforddi'r gweithlu. Felly mae ansicrwydd o hyd ynghylch lefel yr hyfforddiant ar draws y gweithlu ar y dyletswyddau cyfreithiol sy'n ymwneud ag eiriolaeth.

“Dyw rhai gweithwyr cymdeithasol ddim yn glir ynghylch beth yw eiriolaeth. Mae staff yn cael eu hyfforddi ar y Ddeddf yn gyffredinol gan mwyaf.” – Comisiynydd

“Mae eiriolwyr yn cael eu hyfforddi ar y Ddeddf – mae eiriolwyr yn deall y Ddeddf yn well na gweithwyr cymdeithasol.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Rhaid i addysg fynd law yn llaw ag eiriolaeth.” – Comisiynydd

Er mai rôl GCC yw datblygu'r deunyddiau cenedlaethol ar Ddeddf 2014, mae darparu hyfforddiant yn gyfrifoldeb i Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill sy'n cyflawni dyletswyddau o dan y Ddeddf. Felly mae'n bosibl bod y data hyn ar gael yn adrannau hyfforddi'r Awdurdodau Lleol, er nad yw data ar gael ar lefel genedlaethol.

Mae pobl hŷn yn disgwyl y bydd gweithwyr proffesiynol yn adnabod y fframwaith cyfreithiol y maent yn gweithredu drwyddo ac y byddant yn hysbysu pobl am eu hawliau cyfreithiol. Mae hyn yn gymwys nid yn unig i'r dyletswyddau o dan Ddeddf 2014, ond hefyd i'r hawliau i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a Mesur Iechyd Meddwl 2010. Mae'n ymddangos nad

41 Gofal Cymdeithasol Cymru, Hyb Gwybodaeth a Dysgu: Adnoddau dysgu

42 ibid

oes gwybodaeth ar gael ychwaith ar lefel genedlaethol am lefelau hyfforddi staff Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd mewn perthynas â'r deddfau hyn.

Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i ddeall nid yn unig egwyddorion y gyfraith, ond hefyd yr union ofynion cyfreithiol, ac yn bwysicach, yr hawliau y mae hyn yn eu rhoi i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Felly mae angen cael sicrwydd hefyd gan gyrff cyhoeddus corfforaethol fod eu hyfforddiant ar eiriolaeth annibynnol yn ddigonol.

2. Diffygion yn y dull o gynnig eiriolaeth annibynnol

Mae'n bwysig bod pobl sydd ag angen eiriolaeth annibynnol yn deall beth yw ystyr 'eiriolaeth annibynnol' a sut y gall eu helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Heb ddeall y term eiriolaeth annibynnol, gall yr hawl gyfreithiol i'w chael fod yn ddiystyr.

Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol nid yn unig yn hysbysu pobl am eu hawliau i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol ond eu bod hefyd yn sicrhau bod pobl yn deall y gwahaniaeth rhwng eiriolaeth anffurfiol wedi'i darparu gan ffrind neu aelod o'r teulu ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Ar gyfer y rheini sydd â'r angen mwyaf neu'r rheini sy'n fwyaf agored i niwed, fel pobl sy'n byw gyda dementia neu bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, mae'r cynnig o eiriolaeth annibynnol yn hollbwysig.

2.1 Cynnig o eiriolaeth annibynnol

Er bod nifer o ddarparwyr eiriolaeth annibynnol yn hysbysebu ac yn hyrwyddo eu gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mewn gwahanol fathau o leoedd, mynegwyd pryderon ynghylch ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau eiriolaeth annibynnol a pha mor dda yw eu dealltwriaeth o'r buddion y mae'n eu rhoi. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yng ngwaith fy nhîm gwaith achosion: mae nifer mawr o'r rheini sy'n cysylltu â mi heb fod yn ymwybodol o beth yw eiriolaeth annibynnol nac o'u hawliau cyfreithiol i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol mewn rhai amgylchiadau.

“Un peth yw gosod posteri ond os nad ydyn nhw'n cael gwybod amdany'n nhw...taflen wedi'i rhoi: tic – does neb yn cymryd camau wedyn.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Rydych chi'n dibynnu ar bobl i ddweud wrthy'ch chi am y gwasanaeth eiriolaeth.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae'n farn 'nad ydych yn gwybod beth nad ydych yn ei wybod'⁴³ yn un gyffredin a gall fod yn gymwys iawn i hawliau cyfreithiol i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol, sy'n ymddangos yn faes cymhleth iawn. Yn aml, nid yw pobl yn deall eu hawliau, felly mae'r gallu i gael eiriolaeth statudol annibynnol yn dibynnu ar gynnig sy'n cael ei wneud gan weithiwr proffesiynol, fel nyrs neu weithiwr cymdeithasol.

Roedd yr adroddiad diweddar gan Gynghrair Henoed Cymru, 'ReAct to the Act'⁴⁴, sy'n cofnodi barn pobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr am y ffordd y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi effeithio ar eu bywydau a'u profiadau o dderbyn gwasanaethau cymorth a gofal, yn dangos bod nifer mawr o bobl hŷn nad ydynt yn cael adolygiad o'u hanghenion yn unol â'r gofynion. Mae'r

43 Person hŷn, Grŵp SURPs Alzheimer's Cymru

44 The experiences of older people in Wales following the introduction of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Cynghrair Henoed Cymru, Rhagfyr 2017

adroddiad yn dweud na fyddai nifer sylweddol⁴⁵ o'r ymatebwyr yn gallu enwi rhywun i siarad ar eu rhan ac eto roedd bron hanner yr ymatebwyr⁴⁶ a oedd wedi cael asesiad o anghenion heb gael cynnig cymorth gan berson priodol 'arall' neu eiriolwr annibynnol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw'n briodol at y pryder nad yw pobl hŷn yn cael eu grymuso'n llwyr i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed⁴⁷, yn awgrymu nad yw pobl hŷn yn ymwybodol o'u hawliau o dan Ddeddf 2014 ac felly nad ydynt yn gallu herio ymarfer nad yw'n gyson â'r gyfraith.

Po leiaf y mae rhywun yn ei wybod am beth yw eiriolaeth annibynnol a sut mae'n gallu helpu, lleiaf tebygol yw hi y bydd yn derbyn y cynnig, heb sôn am geisio arfer ei hawliau cyfreithiol i'w chael. Felly mae'n glir bod angen gwneud rhagor o waith i uwchsgilio'r boblogaeth ar rôl eiriolaeth annibynnol ac mewn perthynas â'r ffordd i gynnig eiriolaeth. Un ffordd bosibl i ddelio â hyn yw estyn yr hyn sy'n cael ei alw'n 'gynnig rhagweithiol' i sicrhau bod mwy o bobl yn cael gwybod beth yw eiriolaeth annibynnol a beth yw ei phwrpas cyn penderfynu derbyn y cynnig neu beidio.

“Mae'r rhai mwyaf agored i niwed yn syrthio drwy'r rhwyd.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Roedd Deddf 2014 yn ailddatgan y 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. 'Cynnig Rhagweithiol' yw rhannu gwybodaeth am yr hawl gyfreithiol sydd gan blentyn neu berson ifanc i gael cymorth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol. Mae'r wybodaeth a rennir yn ystod y 'cynnig rhagweithiol' yn cynnwys eglurhad am rôl Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, beth all ac na all ei wneud, sut mae'n gweithredu ar sail ei ddymuniadau a theimladau, ei hannibyniaeth a sut mae'n gweithio ar ran y plentyn/person ifanc yn unig, ei pholisi cyfrinachedd, yn cynnwys lle bydd angen torri cyfrinachedd i amddiffyn y plentyn/person ifanc rhag niwed arwyddocaol – mae'n egluro'r hawl statudol sydd gan blant a phobl ifanc i gael cymorth i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, yn ogystal â'u hawl i gyflwyno sylwadau neu wneud cwyn.

Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer grwpiau penodol o blant yn helpu i sicrhau bod dewis yn cael ei wneud ar sail gwybodaeth mewn perthynas â'r cynnig o eiriolaeth annibynnol, gan roi sicrwydd i gyrff statudol fod hawliau'r plentyn mewn perthynas ag eiriolaeth broffesiynol annibynnol wedi'u deall yn iawn – gan wireddu eu hawliau cyfreithiol. Gan dderbyn bod rhai pobl hŷn yn agored i niwed, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn cartrefi gofal, rhaid ystyried y budd o estyn 'cynnig rhagweithiol' i bobl eraill sy'n agored i niwed.

45 36% o'r ymatebwyr a gymerodd ran yn arolwg ReAct to the Act

46 48% o'r ymatebwyr a gymerodd ran yn arolwg ReAct to the Act

47 The experiences of older people in Wales following the introduction of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Cynghrair Henoed Cymru, Rhagfyr 2017

2.2 Mae mwy o angen am eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal

Mae darparwyr eiriolaeth wedi tynnu sylw at bryderon sy'n ymwneud â'r angen cynyddol am eiriolaeth i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Roeddent yn mynegi pryderon ynghylch y preswylwyr hynny nad ydynt yn dod i gysylltiad yn aml â gwasanaethau allanol, yn enwedig y rheini sy'n talu am eu gofal eu hunain ac nad oedd felly'n dod i gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n hanfodol bod eiriolaeth annibynnol ar gael i bobl hŷn agored i niwed sy'n byw mewn cartrefi gofal ac mae'r mater hwn wedi'i godi'n gyson yn fy ngwaith. Roedd 'Llais, Dewis a Rheolaeth'⁴⁸, a 'Lle i'w Alw'n Gartref?'⁴⁹, a gyhoeddwyd yn 2012 a 2014 yn y drefn honno, yn galw am gynyddu'r cynnig o eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal i helpu pobl hŷn wrth wneud penderfyniadau pwysig ac wrth drosglwyddo gofal, ac i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal.

Mae newid mawr yn digwydd wrth gyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r safonau gofal newydd⁵⁰, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cartrefi gofal hysbysebu'r ffaith bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael⁵¹ ac yn cymhwyso dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y person at ddarparu gofal, yn ceisio sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu teilwra yn ôl dymuniadau pobl, ac mae'r defnydd o eiriolaeth yn hanfodol i wireddu hyn. Mae hyn i'w groesawu o ystyried y ddadl gryf o blaid cynyddu argaeledd eiriolaeth annibynnol ar gyfer pobl hŷn er mwyn rhoi mwy o lais, dewis a rheolaeth iddynt.

Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau hyn yn digwydd yn ddigon cyflym i nifer mawr o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal heddiw. Er y bydd y safonau newydd yn cael eu cyflwyno yn Ebrill 2018, rydym yn gwybod bod angen mwy o amser o lawer i newid ymarfer a diwylliant. Mae'n hanfodol sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu galluogi i wneud penderfyniadau am eu bywyd o ddydd i ddydd a'u ffyrdd o dderbyn gofal a chymorth.

Yn ogystal â sicrhau ansawdd bywyd gwell i rai o'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, mae defnydd cynyddol o eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal yn ffordd ychwanegol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf ar Ddiogelu Oedolion, 2016-17⁵² yn dangos bod 38% o'r achosion o gam-drin ac esgeuluso a gofnodwyd wedi digwydd mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn ategu'r pryderon a godwyd gan

48 Llais, Dewis a Rheolaeth, Argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth annibynnol dros Gymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Medi 2012

49 Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Tachwedd 2014

50 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

51 Rheoliad 19, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

52 <http://gov.wales/docs/statistics/2017/171130-adult-safeguarding-2016-17-en.pdf>

ddarparwyr eiriolaeth ynghylch y graddau cynyddol y mae pobl hŷn yn agored i niwed mewn cartrefi gofal. Rhaid gofyn felly a yw'r defnydd presennol o eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal yn foddhaol neu a oes angen defnyddio dull y 'cynnig rhagweithiol', fel yr hyn a gynigir i grwpiau penodol o blant, i sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu diogelu'n effeithiol.

“Mae pobl mewn cartrefi gofal yn agored iawn i niwed ond dydyn ni ddim yn dweud wrthyn nhw am eu hawliau – mae angen posteri, sgysiau.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr eiriolaeth annibynnol yn gweithio mewn cartrefi gofal, maent yn gwneud hynny'n aml ar ôl cael atgyfeiriad gan gartref gofal neu pan fydd rhywun y maent yn ei gynorthwyo yn y gymuned yn symud i gartref gofal. Er bod enghreifftiau ledled Cymru o brosiectau lle mae'r darparwr eiriolaeth yn mynd i gartrefi gofal i weithio gyda phobl hŷn, mae'n ymddangos bod y rhain yn brin. Mae hyn yn peri pryder gan fod nifer o ddarparwyr eiriolaeth wedi nodi mai pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yw'r grŵp sy'n lleiaf tebygol o gael eiriolaeth annibynnol, er eu bod yn fwy tebygol o fod â'i hangen oherwydd y posibilrwydd eu bod yn agored i niwed. Oherwydd hynny, ynghyd â'r ffaith bod nifer cynyddol o bobl hŷn sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal, mae'n glir bod angen i ragor o wasanaethau eiriolaeth annibynnol gymryd camau i ymgysylltu â chartrefi gofal.

“Mae pobl mewn cartrefi gofal yn cael eu gadael yno.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Er ei bod yn ymddangos bod darparwyr eiriolaeth yn ymdrechu'n barhaus i hysbysebu eu gwasanaethau o fewn cartrefi gofal, mae hyn yn amrywio yn ôl y capasiti yn y gwasanaeth eiriolaeth. Roeddent yn mynegi pryder bod eu llwyddiant yn aml y dibynnu ar reolwr y cartref gofal a'i farn am rôl eiriolaeth annibynnol.

“Mae pobl mewn cartrefi gofal yn agored iawn i niwed ond dydyn ni ddim yn dweud wrthyn nhw am eu hawliau – mae angen posteri, sgysiau.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae'n bwysig iawn cynnig eiriolaeth mewn cartrefi gofal. Dyw preswylwyr ddim yn deall beth yw eiriolaeth a gall rheolwyr cartrefi gofal fod yn amharod i ddod i gysylltiad/perthnasoedd gwael.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Rydyn ni'n gweithredu yn y rhan fwyaf o'r cartrefi gofal, ond dyw rhai ohonyn nhw ddim yn gadael i ni ddod i mewn. Mae hyn yn drueni gan ein bod ni'n gallu datrys materion ar lefel is cyn iddyn nhw droi'n broblem.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae'r atgyfeirio gan gartrefi gofal yn amrywio. Gall cartrefi fod yn amheus

iawn. Bydden ni'n falch pe byddai cartrefi gofal yn cael eu gorfodi i ryngweithio â gwasanaethau eiriolaeth drwy'r broses monitro contractau.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Roedd yn glir bod darparwyr eiriolaeth o blaid gorfodi cartrefi gofal i ymgysylltu â darparwyr eiriolaeth annibynnol o dan eu contract â chyrrff statudol. Roedd yn glir hefyd y byddent o blaid defnyddio'r broses monitro contractau i orfodi darparwyr cartrefi gofal i ymgysylltu'n rhagweithiol â darparwyr eiriolaeth annibynnol. Roedd nifer o gomisiynwyr gofal cymdeithasol yn ymwybodol bod pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn agored i niwed ac roeddent o blaid defnyddio'r broses monitro contractau yn y modd hwn. Cam naturiol felly fyddai gorfodi'r defnydd o eiriolaeth annibynnol drwy gcontractau, i ategu ymhellach y gofynion a gaiff eu cyflwyno o dan Ddeddf 2016.

“Mae'r atgyfeirio gan gartrefi gofal yn amrywio. Gall cartrefi fod yn amheus. Bydden ni'n falch pe byddai cartrefi gofal yn cael eu gorfodi i ryngweithio â gwasanaethau eiriolaeth drwy'r broses monitro contractau.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

2.3 Yr angen am eiriolaeth annibynnol arbenigol i bobl sy'n byw gyda dementia

Roedd fy adroddiad Dementia: Mwy na Dim ond Colli'r Cof⁵³ yn dangos bod nifer sylweddol o bobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalcwyr, yn teimlo nad yw eu holl anghenion – am ofal, cymorth, gwybodaeth a chynghor – yn cael eu diwallu ar hyn o bryd gan wasanaethau a'r rheini sy'n eu darparu. Gelwais am gynnig gwybodaeth a chynghor yn rhagweithiol i bobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalcwyr, ar ôl cael diagnosis o ddementia, drwy un pwynt cyswllt fel clinig cof, yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael drwy eiriolaeth annibynnol. Roedd darparwyr eiriolaeth wedi tynnu sylw at y sgiliau cyfathrebu arbenigol a'r wybodaeth am ddementia sydd eu hangen ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia, a hefyd at y ffaith bod y galw am y gwasanaethau hyn yn debygol o gynyddu'n sylweddol yn y dyfodol (rhagwelwyd y bydd nifer y bobl yng Nghymru sy'n byw gyda dementia yn cyrraedd 50,000 erbyn 2025, ac y bydd bron eu chwarter yn 90 oed neu'n hŷn⁵⁴).

Roedd darparwyr eiriolaeth sy'n darparu eiriolaeth annibynnol anstatudol i bobl sy'n byw gyda dementia yn pryderu am ddyfodol eu gwasanaethau, gan fod y cyllido ar gyfer y gwasanaethau eiriolaeth arbenigol hyn o natur dymor byr mewn rhai achosion ac yn dibynnu ar adnoddau'r sefydliad ei hun. Gall hyn arwain at anawsterau o ran cadw staff am nad yw sefydliadau'n gallu cynnig sicrwydd digonol

53 Dementia: Mwy na Dim ond Colli'r Cof – Profiadau pobl sy'n byw gyda dementia a'r rheini sy'n gofalu amdanynt, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Mawrth 2016

54 Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Mai 2017

i'r rhai sydd mewn swyddi neu gystadlu â'r cyflogau uwch sy'n cael eu cynnig weithiau gan ddarparwyr eiriolaeth eraill. Mae angen sgiliau sylweddol i ddarparu eiriolaeth anstatudol i bobl sy'n byw gyda dementia felly mae'n peri pryder bod eiriolwyr hyfforddedig yn gadael y rôl arbenigol hon, ac weithiau'n gadael y sector yn gyfan gwbl. Nid yw'n glir beth yw nifer yr eiriolwyr annibynnol arbenigol sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia, ac mae'r adolygiad diweddaraf o wasanaethau eiriolaeth i bobl hŷn yng Nghymru, Pwysigrwydd Eiriolaeth 5⁵⁵, yn nodi bod 'gostyngiad yn y gwasanaethau sydd ar gyfer diogelu (pobl hŷn rhag cael eu cam-drin) a dementia'.

“Mae eiriolaeth yn ymwneud â mwy na hawliau pobl – mae'n cymryd mwy o amser i gyfleu barn rhywun [mewn perthynas â chleientiaid sy'n cyfathrebu heb eiriau].” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae'r gallu i gael eiriolaeth annibynnol mewn lleoliadau gofal iechyd wedi'i gyfyngu'n aml i'r mathau statudol o eiriolaeth annibynnol sydd ar gael drwy Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA) neu Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA). Er bod y rhan fwyaf o fyrddau iechyd hefyd yn darparu eiriolaeth gymunedol ar gyfer pobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl lefel isel, prin yw'r eiriolaeth annibynnol sydd ar gael i bobl hŷn sy'n byw gyda dementia pan fyddant yn mynd i ysbyty. Dyna pam y gelwais am gynnig y gallu i gael eiriolaeth annibynnol effeithiol heb gyfarwyddyd i unigolion sy'n byw gyda dementia sy'n cael eu derbyn i ysbyty ac sydd heb ofalwr⁵⁶. Mae hawl gyfreithiol gan rai pobl sy'n byw gyda dementia i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol drwy IMCA, IMHA neu Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol, a rhaid cynnig yr hawl hon i unigolion yn rhagweithiol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod bwch yn y ddarpariaeth ar gyfer y rheini sydd heb yr hawl hon.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia⁵⁷, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, yn cyfeirio at bwysigrwydd eiriolaeth annibynnol, gan ddatgan y 'dylid cydnabod gwerth posibl rôl eiriolaeth annibynnol fel "llais y dinesydd" ymhob cyfnod o brofiad unigolyn o fyw gyda dementia, dylid ei hegluro a'i chynnig fel dull o gyflenwi gwasanaeth sy'n seiliedig ar hawliau'⁵⁸. Er bod y datganiad hwn i'w groesawu, ni roddwyd manylion am y ffordd o ddarparu hyn.

“Efallai fod angen i rywun sy'n byw gyda dementia gael eiriolwr annibynnol fel gofyniad safonol – nid aelod o'r teulu. Rhaid iddo fod yn gynnig rhagweithiol.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

55 Pwysigrwydd Eiriolaeth 5, Age Cymru (Rhaglen yr Edau Euraid), Tachwedd 2016

56 Dementia: Mwy na Dim ond Colli'r Cof, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Mawrth 2016

57 Law yn Llaw at Gymru sy'n Deall Dementia, 2017-22, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2018

58 ibid

2.4 Cynnig eiriolaeth annibynnol i ofalwyr

Er bod gwerth gofal di-dâl yng Nghymru wedi'i amcangyfrif yn £8.1 biliwn⁵⁹, mae'r adroddiad State of Caring 2017⁶⁰ yn dweud nad yw 1 ym mhob 5 o'r gofalwyr sy'n gofalu am 50 awr neu fwy yr wythnos yn cael nac yn prynu unrhyw gymorth ymarferol⁶¹. Yn yr un modd, mae adroddiad Track the Act⁶² Gofalwyr Cymru, sy'n darparu arolwg bob 6 a 12 mis o brofiadau bywyd gofalwyr mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi bod 'postcode lottery' ar hyn o bryd 'where carers in some areas will receive an assessment, whereas others won't'⁶³. Mae'r posibilrwydd bod mwy na hanner⁶⁴ y 370,000⁶⁵ o bobl yng Nghymru sy'n darparu gofal di-dâl heb gael asesiad gofalwr yn golygu ei bod yn bosibl bod gallu gofalwyr i gael eiriolaeth annibynnol yn gyfyngedig am nad yw eu hangen am eiriolaeth, boed yn statudol neu anstatudol, yn cael ei nodi.

“Dwi ddim yn meddwl bod pobl yn cael cynnig eiriolwr yn ystod asesiad – os yw'n digwydd, mae hynny'n eithriad.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod anghenion gofalwyr am eiriolaeth annibynnol yn cael eu hystyried yn briodol o dan Ddeddf 2014. Mae gofalwyr, sydd yn bobl hŷn eu hunain mewn llawer achos, yn chwarae rhan hanfodol mewn cyflawni'r egwyddor a nodwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu⁶⁶ o 'adeiladu ar ddyheadau pobl i helpu ei gilydd, yn arbennig ar adegau anodd', felly mae'n bwysig sicrhau bod hawliau gofalwyr yn cael eu cynnal fel y gallant gael y gwasanaethau a chymorth sydd eu hangen arnynt.

“Mae gweithwyr cymdeithasol yn dweud ‘peidiwch â siglo’r cwch’.” – Gofalwr a Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Alla i ddim ymladd dim mwy felly mae'r awdurdod lleol yn cael rhwydd hynt.” – Gofalwr a Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Beth am y rheini nad ydyn nhw hyd yn oed yn eu gweld eu hunain yn ofalwyr? Mae angen darparu gwybodaeth mewn lleoedd eraill i gyrraedd y bobl hynny.” – Gofalwr a Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

59 Valuing Carers 2015: The Rising Value of Carer's Support, Carers UK, Prifysgol Sheffield a Phrifysgol Leeds, Tachwedd 2015

60 State of Caring 2017, Gofalwyr Cymru, Gorffennaf 2017

61 ibid

62 Track the Act: Briefing 2, Gofalwyr Cymru, Medi 2017

63 ibid

64 Dywedodd 66% o ofalwyr yng Nghymru nad oeddent wedi cael cynnig asesiad neu wedi gwneud cais am un, State of Caring 2017, Gofalwyr Cymru, Gorffennaf 2017

65 State of Caring 2017, Gofalwyr Cymru, Gorffennaf 2017

66 Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2011

3. Effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol a'r ffordd o'i chymhwyso

Mae tair deddf sydd, mewn rhai amgylchiadau, yn rhoi hawl i berson i gael eiriolwr statudol annibynnol: Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Iechyd Meddwl 2006 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n bwysig nodi, er bod y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi'r hawl i dderbyn eiriolaeth statudol annibynnol (i rai pobl mewn rhai amgylchiadau), fod Deddf 2014 yn wahanol gan ei bod yn lle hynny'n rhoi dyletswydd ar y corff statudol i ystyried angen y person am eiriolaeth.

Yn aml gall yr hawl i dderbyn eiriolaeth annibynnol statudol fod yn oddrychol, fel bod cymhwyso'r hawl yn gallu bod yn fwy ymestynnol a mwy anodd craffu arno. Felly mae'n hanfodol bod staff yn gallu dilyn ysbryd y ddeddf yn ogystal â llythyren y ddeddf er mwyn cyrraedd ei nod.

3.1 Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n ofynnol bod pob awdurdod lleol yn darparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh). Pwrpas y Gwasanaeth GCCh ym mhob Awdurdod Lleol yw bod yn 'ddrws ffrynt' i gyrraedd gwasanaethau cymdeithasol ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Er bod Gwasanaethau GCCh wedi'u darparu ar nifer o wahanol ffurfiau ledled Cymru, a rhai awdurdodau lleol wedi dewis gosod y Gwasanaeth GCCh ar gontract allanol ac eraill wedi'i ddarparu'n fewnol, ni welwyd eto a fydd y Gwasanaethau GCCh ledled Cymru yn llwyddo fel pwynt cyswllt sengl i bawb, yn cynnwys pobl ag anghenion gofal a chymorth.

Dyweddodd darparwyr eiriolaeth eu bod wedi cael niferoedd bach o atgyfeiriadau gan Wasanaethau GCCh. Mae hyn yn peri pryder gan fod y Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth yn datgan yn glir fod rhaid ystyried angen y person am eiriolaeth wrth 'ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy'⁶⁷ ac wrth 'asesu anghenion am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol'⁶⁸ – meysydd darparu allweddol ar gyfer Gwasanaethau GCCh. Mae hyn yn codi amheuan ynghylch a yw staff Gwasanaethau GCCh yn ymwybodol o'u dyletswyddau mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol o dan Ddeddf 2014 ac yn fwy cyffredinol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth arall sy'n darparu hawl i gael eiriolaeth annibynnol.

“Dyw gwasanaethau GCCh ddim yn gweithio fel y dylen nhw. Dylen nhw chwilio am wasanaethau eiriolaeth. Maen nhw'n tueddu i ddibynnu ar Dewis ar-lein yn unig.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

67 Paragraff 50, Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

68 ibid

“Mae angen i staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ddeall beth yw eiriolaeth.”
– Comisiynydd

“Dyw pobl mewn canolfannau cyswllt ddim o’r safon i allu helpu gyda gofynion cyfreithiol.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Oherwydd y diffygion o ran cofnodi data sy’n ymwneud ag eiriolaeth o dan Ddeddf 2014, a’r ffaith nad yw data yn cael eu cofnodi am atgyfeiriadau i Wasanaethau GCCh, nid yw’n glir pam mae’r cyfraddau atgyfeirio a gofnodwyd yn isel. Roedd comisiynwyr mewn Awdurdodau Lleol wedi nodi bod diffyg data yn peri problem ac wedi awgrymu bod y math o gyswllt a brofir gan Wasanaethau GCCh yn gallu effeithio ar gyfraddau atgyfeirio. Roeddent wedi tynnu sylw at y ffaith mai aelodau o’r teulu sydd yn aml yn cysylltu â Gwasanaethau GCCh, gyda neu ar ran y person sydd ag angen gofal a chymorth, ac felly fod yr angen am eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael ei weld yn llai. Mae hyn yn codi cwestiynau pellach ynghylch y cynnig o eiriolaeth yn fwy cyffredinol a’r rhagdybiaethau y gall gweithwyr proffesiynol eu gwneud mewn perthynas ag angen y person am eiriolaeth annibynnol pan yw’n ymddangos bod ganddo ‘unigolyn priodol’ i gyfleu ei farn, dymuniadau a theimladau.

“Mae eiriolaeth yn cael ei dehongli mewn ffordd sy’n gyfleus i agenda’r awdurdod lleol.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae’r Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cynnig cyfle i ddod i gysylltiad yn gynnar â phobl heblaw’r rheini ag anghenion gofal a chymorth sydd eisoes wedi’u hadnabod. Mae hyn yn rhan hanfodol o’r agenda ar atal ac ymyrryd cynnar sy’n cael ei hyrwyddo drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Felly mae’n bwysig bod y gwasanaethau hyn yn cyflawni’r dyletswyddau sydd yn Neddf 2014 mewn ffordd effeithiol, gyda staff sy’n llwyr ymwybodol o’r dyletswyddau mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu galluogi i arfer llais a rheolaeth yn ystod eu cyswllt â’r Gwasanaeth GCCh. Byddai methu â sicrhau bod Gwasanaethau GCCh yn cyrraedd y safon hon yn golygu bod cyfle wedi’i golli i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ‘sy’n safonol, sy’n ymateb i anghenion ac sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn’ yn unol â Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy⁶⁹.

3.2 Y broses rhyddhau o’r ysbyty

Mae’r broses rhyddhau o’r ysbyty yn faes sy’n peri pryder y cyfeiriwyd ato’n gyson gan ddarparwyr eiriolaeth ledled Cymru. Er y gall teitl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod braidd yn gamarweiniol, mae’n gosod dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd yn ogystal ag Awdurdodau Lleol. Mae’r argymhelliad yn yr Adolygiad Seneddol diweddar y dylai gwasanaethau gofal a chymorth fod yn ddi-dor ‘without artificial barriers between physical and mental

⁶⁹ Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2011

health, primary and secondary care, or health and social care' yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i ymateb i'r galw am integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd darparwyr eiriolaeth wedi cyfeirio at nifer o achosion o ryddhau cleifion yn amhriodol o'r ysbyty lle'r oedd yn ymddangos bod pobl wedi methu â chael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth am eu bod wedi'u hystyried yn 'feddygol ffit' ac wedi'u cyfarwyddo i adael yr ysbyty. Gall hyn fod yn arwydd bod yr ymdrech i ryddhau lleoedd gwely yn cael blaenoriaeth dros anghenion y person am ofal cymdeithasol. Er bod yr angen am ryddhau cleifion o'r ysbyty'n gyflym yn glir a'i bod yn briodol i weithwyr iechyd proffesiynol gymryd camau i leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, annoeth yw delio ag anghenion iechyd y person yn unig os bydd anghenion am ofal a chymorth sydd heb eu diwallu yn arwain at ei aildderbyn i'r ysbyty. Mae tystiolaeth yn dangos bod rhyddhau rhywun i lety anaddas yn gallu ei gwneud yn fwy tebygol iddo gael ei aildderbyn i'r ysbyty, gan roi mwy o bwysau ar wasanaeth gofal iechyd sydd eisoes wedi'i orymestyn.

“Mae rhyddhau o'r ysbyty'n fater anodd – mewn cysylltiad â phobl hŷn yn bennaf. Pobl yn 'blocio gwelyau' wrth aros am asesiad [gofal a chymorth].” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Rydyn ni'n cael achosion cymhleth iawn. Achosion sy'n dod yn eu hôl – sylwi ar y symptomau ond ddim ar y broblem sylfaenol.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae pobl yn cael eu cyfarwyddo i'w rhyddhau eu hunain o'r ysbyty os nad yw asesiad gwaith cymdeithasol wedi'i wneud.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Yn feddygol ffit i fynd – dyw amgylchiadau cymdeithasol ddim yn broblem iddyn nhw.” – Gofalwr a Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Er bod y rhyngweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fater sy'n ehangach o lawer na chwmpas yr adroddiad hwn, mae proses yr asesiad o anghenion gofal cymdeithasol mewn lleoliadau iechyd yn ffordd hanfodol i sicrhau cymorth gan eiriolwr annibynnol. Os nad yw asesiadau o anghenion yn cael eu cynnal yn unol â Deddf 2014, neu os nad ydynt yn cael eu cynnal o gwbl, gallai rhywun gael ei amddifadu o'i hawl i gael cymorth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

Er bod y gallu i gael cymorth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn ddewis a all fod ar gael i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth lle mae asesiadau o anghenion wedi'u cynnal yn unol â Deddf 2014, heblaw am eiriolaeth annibynnol statudol sy'n gysylltiedig â galluedd (IMCA) neu eiriolaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl (IMHA neu Eiriolaeth Gymunedol anstatudol a ddarperir gan rai Byrddau Iechyd),

mae'n ymddangos bod bwlch yn y ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol i bobl mewn lleoliadau gofal iechyd i helpu mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

“Mae angen eiriolaeth annibynnol ar gleifion – rhywun nad yw o dan bwysau i gadw at gyllideb.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Yn fy adolygiad diweddar o effeithiolrwydd mesurau diogelu mewn ysbytai⁷⁰ cafwyd bod Byrddau Iechyd yn rhoi gwybod eu bod yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau o ran penodi IMCAs ac IMHAs, ond nad oeddent wedi cydnabod y gofyniad o dan Ddeddf 2014 am drefnu i Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol fod ar gael yn ystod ymchwiliad diogelu. Nodwyd hefyd ei bod yn ymddangos nad yw Byrddau Iechyd wedi ystyried cydgomisiynu gwasanaethau eiriolaeth er mwyn eu gwneud yn llai digyswllt. Er bod y canfyddiad hwn yn ymwneud â darparu eiriolaeth annibynnol mewn perthynas â diogelu mewn ysbytai, mae'n bosibl bod y pryder ynghylch y diffyg cynnig o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, ynghyd â'r ffaith ei bod yn ymddangos nad yw eiriolaeth annibynnol anstatudol ar gael i bobl hŷn mewn ysbytai, yn dangos nad yw Byrddau Iechyd yn gweithredu Deddf 2014 yn gyson ac effeithiol.

“Mae pobl mewn ysbytai'n dweud ‘dydyn nhw ddim yn poeni amdana i am fy mod i'n hen’.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae ymchwil yn dangos y gall y person hŷn deimlo'n ddiymadferth neu'n analluog i gyfleu ei farn hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae ei deulu neu weithwyr proffesiynol o'i gwmpas. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallant deimlo ofn neu anallu i herio neu ddylanwadu ar benderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu bywyd, a fydd yn dwysáu eu teimlad o fod yn ddiymadferth. Rydym yn gwybod bod 31% o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ariannu eu gofal eu hunain⁷¹ felly mae'n bwysig bod pobl hŷn mewn ysbytai sydd heb gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol ac a all fod yn ystyried eu hanghenion am lety, yn cynnwys symud i gartref gofal, yn gallu cael eiriolaeth annibynnol. Yn ogystal â helpu i sicrhau bod y person yn gwybod ei hawliau a'r opsiynau sydd ar gael iddo, mae peri i'ch llais gael ei glywed ac i gamau gael eu cymryd ar sail hynny'n creu ymdeimlad mwy o lawer o berchnogaeth ar benderfyniadau pwysig, fel un i symud i gartref gofal, a all wneud gwahaniaeth mawr i lesiant y person a'i olwg ar fywyd wrth symud i gartref gofal.

3.3 Defnyddio 'Unigolyn Priodol'

Yn aml mae'r gallu i gael eiriolaeth annibynnol statudol yn dibynnu ar ba un a oes rhywun gan y person sy'n gallu gweithredu fel eiriolwr neu 'Unigolyn Priodol', rôl

⁷⁰ Review of the Actions which Health Boards are taking to ensure that older people who are hospital in-patients are safeguarded from harm in line with the requirements of the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014 Sections 7 and 10, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ebrill 2018

⁷¹ LaingBuisson, Care of Older People: UK Market Report – 27fed argraffiad, t210, tabl 7.3 a LaingBuisson, Care of Older People: UK Market Report, 28fed argraffiad, Mai 2017, tabl 7.3

sy'n aml yn cael ei chyflawni gan aelod o'r teulu neu ffrind. Mae'r gyfraith yn dweud bod yr hawl i gael Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA) neu Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (IPA) yn dibynnu ar ba un a oes gan y person rywun arall i'w gynrychioli. Mae'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth⁷² ac, i lai o raddau, Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol⁷³ yn amlinellu'r amgylchiadau lle nad yw'n briodol i rywun weithredu fel eiriolwr. Mae hyn yn iawn gan na fydd bob amser yn briodol i rywun ymgymryd â'r rôl hon mewn amgylchiadau penodol.

Ar gyfer rhai pobl, bydd yn naturiol i aelod o'r teulu neu ffrind eirioli ar eu rhan ac mae'n iawn eu bod yn gallu gwneud hynny. Bydd llawer o bobl yn cael cymorth gan aelod o'r teulu neu ffrind yn hytrach na chan eiriolwr annibynnol ac, er nad yw hyn yn destun pryder ar ei ben ei hun, rhaid deall yr holl agweddau cymhleth ar rôl yr 'Unigolyn Priodol'. Mae'r Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth yn datgan:

“Disgwylir i unigolion priodol gynorthwyo, cynrychioli a hwyluso cyfranogiad unigolyn wrth sicrhau ei ganlyniadau llesiant. Er mai aelod o'r teulu, ffrind neu rywun sy'n rhan o'r fframwaith cymorth ehangach fydd yr unigolyn hwn yn aml, mae'n debyg y bydd yn anodd i rai pobl gyflawni'r swyddogaeth hon. Er enghraifft, aelod o'r teulu sy'n byw'n bell i ffwrdd ac sydd ond yn cyfarfod â'r person yn achlysurol; priod sydd hefyd yn ei chael yn anodd deall prosesau'r awdurdod lleol; ffrind sy'n mynegi safbwyntiau cryf ei hun cyn canfod safbwyntiau'r unigolyn perthnasol. Nid yw'n ddigon i adnabod y person yn dda. Rôl yr unigolyn priodol yw cynorthwyo ymgysylltiad a chyfranogiad llawn yr unigolyn wrth bennu ei ganlyniadau llesiant”⁷⁴.

Mae'r Cod yn datgan nad yw adnabod y person yn ddigon ar ei ben ei hun iddi fod yn briodol eirioli ar ei ran. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor fanwl y mae hyn yn cael ei gymhwyso. Un agwedd ar rôl yr eiriolwr annibynnol fydd rhoi gwybod i'r person am ei hawliau o dan y gyfraith. Felly rhaid gofyn i ba raddau y mae person lleyg yn gallu cyflawni'r swyddogaeth hon a sicrhau bod yr un sydd dan ei ofal yn gallu mwynhau'r un lefel o gymorth ag a fyddai'n cael ei ddarparu gan eiriolwr annibynnol proffesiynol.

“Mae cyswllt emosiynol yn ei gwneud yn anodd iawn bod yn wrthrychol. Cryfder eiriolaeth yw ei bod yn gallu codi'n uwch na hyn.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, mae eiriolwyr anffurfiol fel aelodau o'r teulu neu ffrindiau'n gallu cael cymorth gan IMCA⁷⁵ i'w cynghori ar eu rôl eirioli anffurfiol. Fodd bynnag, roedd darparwyr eiriolaeth wedi nodi nad yw'r hawl hon yn cael

72 Paragraff 61, Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

73 Deddf Galluedd Meddyliol 2005: Cod Ymarfer, Llywodraeth y DU, Ebrill 2007

74 Pennod 13, Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

75 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn datgan bod rhaid cyfarwyddo IMCA o dan adran 39D lle mae cynrychiolydd di-dâl gan y person os gwneir cais gan y person neu ei gynrychiolydd di-dâl neu os yw'r corff goruchwylio yn credu y byddai'r person neu ei gynrychiolydd yn cael budd o gymorth gan IMCA o dan adran 39D

ei chynnig yn aml i'r rheini sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr di-dâl. Teimlai rhai rhanddeiliaid y gallai hyn fod oherwydd y gost ychwanegol y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ei hysgwyddo o ganlyniad. Mae hyn yn destun pryder os yw pobl yn cael eu hatal rhag cael IMCA am fod ganddynt rywun i'w cynrychioli, ond nad yw'r un sydd wedi'i benodi'n eiriolwr anffurfiol neu'n gynrychiolydd di-dâl i'r person yn cael y cymorth sydd ei angen arno i fod yn effeithiol, fel bod llais y person yn cael ei danseilio.

“Mae gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn cymryd y bydd aelod o'r teulu'n eirioli.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae dehongli'r Ddeddf yn fater anodd – mae pobl yn syrthio drwy'r rhwyd.”
– Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

3.4 Cymhwyso penderfyniadau ar y 'Budd Pennaf'

Mae defnydd amhriodol o benderfyniadau ar y 'budd pennaf' wedi bod yn destun pryder parhaus, ac mae fy ngwaith achosion wedi dangos nad yw penderfyniadau ar y 'budd pennaf' bob amser yn cael eu defnyddio'n unol ag ysbryd Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae enghreifftiau o achosion lle mae'r corff cyhoeddus yn dylanwadu'n ormodol ar y broses penderfynu, yn lle barn, dymuniadau a theimladau'r person sy'n destun i'r penderfyniad ar y 'budd pennaf', yn ddigon cyffredin.

Roedd darparwyr eiriolaeth wedi mynegi pryderon ynghylch diffyg ystyriaeth i rôl yr IMCA mewn penderfyniadau ar y 'budd pennaf', yn enwedig lle mae'r corff cyhoeddus a chynrychiolwyr y teulu'n anghydweid. Roeddent hefyd wedi ailddatgan pryderon am y defnydd amhriodol o benderfyniadau ar y 'budd pennaf' ac wedi rhoi gwybod am achosion lle gofynnwyd iddynt gymeradwyo penderfyniadau ar y 'budd pennaf' yn ddi-gwestiwn ar ôl cynnal y cyfarfod neu lle'r oeddent wedi'u cynnwys yn hwyr iawn yn y broses, gan eu gadael heb fawr ddim amser i baratoi.

“Fyddwn ni ddim yn clywed am y cyfarfodydd bob tro – ar fyr rybudd. Ond mae pethau'n gwella.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Cyfarfodydd – cael y wybodaeth anghywir / ar fyr rybudd.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Byddwn ni'n cael ein gwahodd i gyfarfodydd gan amlaf – ond gall hynny ddigwydd dim ond diwrnod ymlaen llaw.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Does dim cyfle i feithrin perthynas – un cyfarfod i drafod materion penodol yn unig.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae hyn yn codi amheuaeth nid yn unig ynghylch a yw'r gyfraith yn cael ei chymhwyso'n ddigonol ond hefyd ynghylch y diwylliant sy'n bodoli mewn rhai sefydliadau. Os oedd dealltwriaeth o'r pwysigrwydd a'r manteision o sicrhau bod

barn y person yn cael ei chlywed, byddai'r IMCA, neu'r rheini sy'n gweithredu fel eiriolwr anffurfiol, yn cael cais i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar y Budd Pennaf. Mae'r ffaith nad yw hyn yn digwydd yn dangos bod y 'farn broffesiynol', fel barn y Meddyg Ymgynghorol, yn gallu cael blaenoriaeth dros farn y person.

“Dyw gwasanaethau cymdeithasol ddim yn deall eiriolaeth eto. Dydyn nhw ddim yn gweld yr angen am annibyniaeth neu am ystyried Gwrthdaro Buddiannau.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Maen nhw'n amharod i gynnwys eiriolwyr am fod hynny'n eu hatal rhag dilyn eu llwybr eu hunain. Mae teuluoedd yn cael eu rhuthro.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

3.5 Rhoi statws cyfartal i eiriolwyr statudol annibynnol

Cafwyd disgrifiadau amrywiol gan ddarparwyr eiriolaeth am raddau'r parch sy'n cael ei roi iddyn nhw a'u rôl gan weithwyr proffesiynol eraill mewn cyrff cyhoeddus. Teimlai eiriolwyr annibynnol fod hyn yn aml yn dibynnu ar y perthnasoedd penodol rhwng y rheini sy'n gweithio mewn cyrff statudol a'r darparwr eiriolaeth, yn ogystal â barn y gweithiwr proffesiynol am fuddion eiriolaeth annibynnol. Dywedodd darparwyr gwasanaethau IMCA eu bod yn aml yn cael cais i gymeradwyo penderfyniadau'n ddi-gwestiwn a bod disgwyl iddynt beidio â herio penderfyniadau. Mynegwyd pryderon ei bod yn hawdd i heriau ganddynt gael eu diystyru gan benderfynwyr o dan y gyfraith bresennol heb roi digon o sylw iddynt.

“Roedd y meddyg wedi penderfynu cyn y cyfarfod – mater o dicio blychau oedd y cyfarfod.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Fyddan nhw ddim yn gwrando arna i bob tro – dim ond un ymysg llawer ydw i.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Yn gyffredinol, teimlai darparwyr eiriolaeth nad yw gweithwyr proffesiynol fel meddygon ymgynghorol bob amser yn trin yr eiriolwr annibynnol, boed yn statudol neu anstatudol, fel partner cyfartal yn y broses penderfynu. Er nad yw'r eiriolwr annibynnol ond yn gallu cyflwyno barn ei gleient gan obeithio y bydd yn cael ei chlywed a'i defnyddio fel sail i weithredu, mae pwysigrwydd barn, dymuniadau a theimladau'r person yn aml yn ildio i 'farn broffesiynol'.

Er bod y mewnbwn gan eiriolwyr annibynnol statudol yn cael ei ddiystyru weithiau gan benderfynwyr eraill, roedd darparwyr eiriolaeth yn teimlo mai cam cadarnhaol oedd rhoi eiriolaeth annibynnol ar sail statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ôl darparwyr eiriolaeth, bydd creu rôl yr Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol yn helpu i godi statws y rôl, gan roi mwy o awdurdod i Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd yr effaith o greu rôl yr Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol, ond

roedd nifer o ddarparwyr eiriolaeth yn croesawu'r cam hwn a'r newid i reoleiddio eiriolaeth annibynnol (nad yw wedi'i diffinio eto) mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol.

Rydyn ni'n croesawu rheoleiddio – mae angen i sefydliadau eiriolaeth roi gwybodaeth gywir a gwybod beth yw'r hawliau cyfreithiol.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae rheoleiddio'n beth da – mae'n cydnabod ansawdd da.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae'n bwysig bod yr effaith o rôl yr Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol yn cael ei monitro i sicrhau ei fod yn cael llais cyfartal mewn penderfyniadau am ofal a chymorth y person.

3.6 Hawliau pobl sydd â nam ar y synhwyrau

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan bobl sydd â nam ar y synhwyrau a'u profiad o'r gallu i gael gwasanaethau yn codi pryderon am yr ymarfer gan rai cyrff statudol. Mae'n hanfodol bod y rheini sydd â mwy o angen am eiriolaeth annibynnol oherwydd eu hanghenion cyfathrebu yn gallu derbyn cymorth priodol ac mae achosion lle nad yw pobl sydd â nam ar y synhwyrau yn gallu cael gwasanaethau dim ond am nad oes cymorth priodol ar gael yn annerbyniol.

Mynegwyd pryder ynghylch lefel a chysondeb y gwasanaethau statudol sydd ar gael drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Nid yw achosion lle nad yw pobl yn gallu arfer eu hawliau, fel yr hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth o dan Ddeddf 2014, am nad oes gweithwyr cymdeithasol ar gael sy'n defnyddio BSL at safon ddigonol i wneud gwaith arbenigol o'r fath, yn dderbyniol. Er bod y gyfraith yn glir o ran y cymorth y mae'n rhaid ei ddarparu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid gofyn a yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n briodol ac a yw hawliau pobl yn cael eu cynnal.

Er bod gweithrediad y Ddeddf Cydraddoldeb yn fater ar wahân i ddarparu eiriolaeth annibynnol, mae cysylltiad rhyngddynt. Os nad yw staff mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â rhywun sydd â nam ar y synhwyrau, rhaid gofyn sut byddent yn gallu cynnal trafodaeth am angen posibl y person am eiriolaeth annibynnol a'r buddion y gallai eu rhoi i'r unigolyn. Mae'n destun pryder os yw pobl sydd â nam ar y synhwyrau'n cael eu hamddifadu o hawl ddichonol i dderbyn eiriolaeth annibynnol oherwydd diffyg cymorth i ddiwallu eu hanghenion iaith.

“Rwy'n gwybod bod toriadau ar gyllid ond rwy'n talu fy nhrethi fel pawb arall.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Yr unig beth sydd ei angen arnon ni yw cael gwasanaeth, cwrdd â'n hanghenion a mynd adref fel pawb arall.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Yn aml bydd mwy o angen ar bobl sydd â nam ar y synhwyrâu am eiriolaeth annibynnol am nad yw gwybodaeth ar gael am hawliau i'r un graddau ag y mae ar gael i rai sydd heb nam ar y synhwyrâu. Os nad ydynt yn gallu cael gafael ar wybodaeth, ac os nad oes cymorth priodol ar gael gan weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau statudol sy'n gallu cyfathrebu drwy ddulliau gwahanol at safon uchel, bydd angen mwy byth ar bobl sydd â nam ar y synhwyrâu am gymorth drwy eiriolaeth annibynnol, yn cynnwys eiriolaeth annibynnol statudol.

“Ychydig o wahaniaeth sydd rhyngddi a gwybodaeth, cyngor a chymorth – fel rhywun byddar, mae cael gwybodaeth ac esboniad yn gallu troi'n eiriolaeth – egluro cysyniadau a hawliau.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Oherwydd natur y berthynas y mae'n rhaid ei chreu rhwng eiriolwr annibynnol a'i gleient, ynghyd â'r angen am wybodaeth arbenigol am hawliau cyfreithiol ac am sgiliau cyfathrebu, ni fyddai'n iawn cymryd y byddai cyfieithwyr proffesiynol yn gallu cyflawni rôl yr eiriolwr annibynnol. Ar ben hynny, nid yw'n glir ar hyn o bryd beth yw nifer yr eiriolwyr annibynnol hyfforddedig sy'n arbenigo mewn cyfathrebu â phobl sydd â nam ar y synhwyrâu. Mae hyn yn destun pryder ac mae'n bwysig bod gwasanaethau ieched a gwasanaethau cymdeithasol yn ystyried hyn wrth asesu'r angen cyfredol am eiriolaeth a chynllunio i ateb y galw yn y dyfodol.

“Pan fydd eiriolwr da gennych chi, mae hynny'n gallu gwneud pethau'n haws o lawer. Mae eiriolwr da yn deall diwylliant pobl fyddar – fyddai gwasanaethau cymdeithasol ddim yn deall ac maen nhw'n meddwl ein bod ni'n dwp – ‘druan ohonoch chi’ – mae pobl â nam ar eu clyw yn mynd i waelod y pentwr.”
– Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

3.7 Darparu eiriolaeth annibynnol yn Gymraeg

Roedd darparwyr eiriolaeth yn ymddangos yn hyderus yn eu gallu i ddarparu eiriolwyr annibynnol sy'n siarad Cymraeg ond roedd rhai wedi mynegi pryder am y diffyg galw ymddangosiadol am eiriolaeth annibynnol drwy'r Gymraeg. Dywedwyd mai un esboniad posibl am lefel isel y galw oedd bod rhai gweithwyr proffesiynol yn rhagdybio beth oedd dewis iaith y person ac roedd cydnabyddiaeth y gallai rhywun fod â dewis iaith wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ryngweithio. Mae'n ymddangos bod achosion lle'r oedd gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau statudol yn anymwybodol o allu rhywun i siarad Cymraeg nes ei fod wedi ymwneud ag eiriolwr annibynnol yn weddol gyffredin.

“Ces i fwy o wybodaeth ganddo fe nag roedden nhw wedi'i gael mewn 4 wythnos.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Esboniad ychwanegol a gynigiwyd am lefel isel y galw am eiriolaeth annibynnol drwy gyfrwng y Gymraeg oedd bod hyn yn ganlyniad uniongyrchol i natur annigonol y systemau cofnodi a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau

statudol. Er bod comisiynwyr gwasanaethau'n hyderus bod y ddewis iaith yn cael ei chofnodi wrth asesu, roedd darparwyr eiriolaeth yn amau a oedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi'n ddigonol a'i rhannu'n briodol.

“Dyw Cynlluniau Diogelu a Gofal ddim yn dweud bob amser a yw pobl am gael gwasanaeth Cymraeg – felly ydy'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn? Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn anwybyddu'r Gymraeg – does dim sôn amdani o'r cychwyn. Maen nhw'n cymryd bod pawb am gael gwasanaeth Saesneg.”
– Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Mae eiriolwr ar gael sy'n siarad Cymraeg ond ychydig iawn o bobl sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

4. Natur annigonol y data mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol statudol

Ar y cyfan, nid oes tystiolaeth ar gael i roi sicrwydd bod hawliau pobl hŷn i gael eiriolaeth annibynnol statudol yn cael eu cynnal. Mae hyn yn achosi pryderon nid yn unig ynghylch a yw cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan y gyfraith, ond hefyd yn codi amheuon ynghylch a yw eiriolaeth annibynnol anstatudol, sy'n cael ei hystyried yn arfer da ac sydd heb fod yn orfodol o dan y gyfraith, yn cael ei chynnig yn gyson i bobl i sicrhau bod ganddynt lais.

Am nad yw data dibynadwy ar gael, ni ellir dangos a yw pobl sydd â hawl gyfreithiol i gael eiriolaeth annibynnol statudol yn cael eu hysbysu am eu hawliau ac yn cael cynnig y gallu i'w derbyn. Oherwydd diffyg data, nid ydym ychwaith yn gallu deall i ba raddau y mae eiriolaeth annibynnol anstatudol yn cael ei defnyddio yn rhan o'r 'agenda ataliol'.

Mae hyn yn peri pryder oherwydd, os nad yw data digonol ar gael, ni fydd llywodraethau lleol a chenedlaethol yn gallu cael sicrwydd bod hawliau pobl yn cael eu cynnal a bydd ganddynt lai o wybodaeth am y diwylliant sy'n bodoli mewn gwasanaethau cyhoeddus.

4.1 Data perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuwyd gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar 6 Ebrill 2016, a chyhoeddwyd y data cyntaf mewn perthynas â gweithredu'r Ddeddf gan Awdurdodau Lleol ar 31 Hydref 2017. Mae'r data hyn yn cyfateb i'r flwyddyn gyntaf o weithrediad y Ddeddf⁷⁶ ac yn cynnwys data lleol a chenedlaethol am nifer o feysydd sydd wedi'u pennu yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol⁷⁷. Fodd bynnag, er bod y gallu i dderbyn eiriolaeth annibynnol yn elfen ganolog yn y Ddeddf drwyddi draw, prin yw'r data a gasglwyd mewn perthynas â hyn.

Elfen ganolog yn yr agenda ar bersonoli gwasanaethau yw'r dyletswyddau hollgyffredinol, fel y ddyletswydd i roi sylw i farn, dymuniadau a theimladau⁷⁸, sy'n cael ei hyrwyddo gan Ddeddf 2014, yn ogystal â'r dyletswyddau cysylltiedig sydd wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth⁷⁹, i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i bobl sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal a chymorth (neu am gymorth yn achos gofalwyr). Fodd bynnag, nid yw'r data diweddaraf am weithrediad y Ddeddf⁸⁰ yn dangos i ba raddau y mae'r

76 Blwyddyn Ariannol 2016-17

77 Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

78 Adran 6(2)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

79 Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

80 Data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, Adults receiving care and support in Wales, 2016-17 (Experimental statistics)

dyletswyddau hollgyffredinol wedi'u cyflawni. Ar ben hynny, nid yw'r data yn darparu unrhyw dystiolaeth ynghylch a yw angen y person am eiriolaeth annibynnol wedi'i ystyried ar y pwyntiau gofynnol yn ystod ei gyswllt â gwasanaethau cymdeithasol neu a ganiatawyd iddo gael Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

“Dydyn nhw ddim yn casglu data eraill am eiriolaeth – dim ond beth mae Llywodraeth Cymru'n gofyn amdano.” – Comisiynydd

“Ar hyn o bryd rydyn ni'n monitro eiriolaeth ar sail contractau cyflawni yn unig.” – Comisiynydd

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol⁸¹ yn dangos bod 79% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, a 71% o ofalwyr sy'n derbyn cymorth, yn cytuno eu bod wedi'u cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch darparu eu gofal neu gymorth. Er hynny, mae'r adroddiad hefyd yn dangos bod gostyngiad yng nghanran y bobl sy'n cytuno bod ganddynt reolaeth ar eu bywyd pob dydd ers gweithredu Deddf 2014⁸². Er bod yr adroddiad yn nodi bod gostyngiad tebyg ymysg pobl nad oeddent yn derbyn gofal a chymorth a oedd yn teimlo bod ganddynt reolaeth ar eu bywyd pob dydd, nid yw'r data yn gallu darparu tystiolaeth bellach a allai ddangos a oedd dyletswyddau penodol o dan Ddeddf 2014 wedi'u cyflawni'n briodol.

Nid yw'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi rhagor o fanylion ychwaith am y rhesymau nad oedd bron 30% o bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth (neu anghenion cymorth yn achos gofalwyr) yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys mewn penderfyniadau a wnaed amdanynt. Ar ben hynny, nid yw'n cyfeirio at y graddau y mae hawliau pobl yn cael eu parchu neu at eu gallu i gael gwasanaeth gan eiriolwr annibynnol: mae'r rhain yn fylchau sylweddol yn y data.

Mae'r data yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf yn dweud wrthym mai dim ond nifer bach o bobl⁸³ a gafodd wasanaethau eiriolaeth o dan eu Cynllun Gofal a Chymorth (neu Gynllun Cymorth yn achos gofalwyr). Un diffyg amlwg yn y data hyn yw eu bod yn ymwneud â phobl sy'n derbyn gofal a/neu gymorth yn unig. Ceir effaith ddeublyg o hyn: nid ydynt yn dangos nifer y bobl a all fod wedi derbyn eiriolaeth annibynnol fel gwasanaeth ataliol, yn unol ag ethos y Ddeddf, ac nid ydynt yn rhoi sicrwydd bod yr Awdurdod Lleol yn gweithredu'n unol â'r gyfraith mewn perthynas â'r cynnig o

81 Mesur llesiant cenedlaethol: Adroddiad ar y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, 2016–17, Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2017

82 Yn 2016–17, roedd 72 y cant o bobl a oedd yn cael gofal a chymorth a 79 y cant o ofalwyr a oedd yn cael cymorth yn cytuno bod ganddynt reolaeth ar eu bywyd pob dydd i'r graddau sy'n bosibl. Yn 2014–15, roedd 81 y cant o bobl a oedd yn cael gofal a chymorth ac 87 y cant o ofalwyr a oedd yn cael cymorth yn cytuno bod ganddynt reolaeth ar eu bywyd pob dydd i'r graddau sy'n bosibl. Mesur llesiant cenedlaethol: Adroddiad ar y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, 2016–17, Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2017

83 Roedd 762 o oedolion 18+ oed wedi derbyn gwasanaethau eiriolaeth o dan Gynllun Gofal a Chymorth neu Gynllun Cymorth. Darparwyd 147,336 o wasanaethau i oedolion o dan Gynllun Gofal a Chymorth neu Gynllun Cymorth, data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, Adults receiving care and support in Wales, 2016-17 (Experimental statistics)

eiriolaeth annibynnol statudol (h.y. Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol). Nid yw'r data yn rhoi manylion ychwaith am ba fath o 'eiriolaeth' a gafwyd – Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, IMCA, eiriolaeth annibynnol anstatudol neu eiriolaeth gan gymheiriaid, er enghraifft.

Mae diffygion y data am eiriolaeth annibynnol yn faes sy'n peri pryder sydd wedi'i nodi gennyf o'r blaen⁸⁴. Er fy mod yn falch o gael gwybod bod gwaith yn cael ei wneud eisoes i adolygu'r data a gasglwyd mewn perthynas â Deddf 2014, heb gael data dibynadwy am y defnydd o eiriolaeth annibynnol yn fwy cyffredinol, na data am ddarparu a chynnig Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel dyletswydd statudol, ni ellir gwybod i ba raddau y mae pobl hŷn yn gwneud defnydd o eiriolaeth annibynnol – boed ar ffurf gwasanaeth ataliol neu drwy eu hawl o dan Ddeddf 2014.

Cafwyd ymwadiad gyda'r data am Ddeddf 2014⁸⁵ sy'n datgan bod gwendidau posibl yn ansawdd y data oherwydd newidiadau mewn systemau mewn Awdurdodau Lleol i gasglu data newydd ac am nad yw prosesau cofnodi wedi'u gweithredu'n drwyadl. O ganlyniad i hyn, nid yw rhai Awdurdodau Lleol wedi gallu darparu data am rai mesurau perfformiad, yn cynnwys eiriolaeth annibynnol. Mae'r gwendid posibl yn ansawdd y data ar gyfer deddfwriaeth Gymreig bwysig yn destun pryder. At hynny, rhaid gofyn a yw'r mesurau perfformiad cyfredol yn ddigonol i roi digon o sicrwydd bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal. Mae'n bosibl bod pobl sydd ag angen eiriolaeth annibynnol i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a chymorth yn cael eu hamddifadu o'u hawl i'w 'barn, dymuniadau a theimladau'⁸⁶ gael eu clywed yn rhan o'u darpariaeth gofal a chymorth, gan nad oes tystiolaeth i ddangos fel arall.

Os oes bwriad i ddefnyddio'r data hyn 'both within and outside the Welsh Government to monitor adult social services trends'⁸⁷ er mwyn 'provide a summary of activity in relation to new legal duties introduced in the Social Services and Well-being (Wales) Act'⁸⁸, rhaid ymdrin â'r diffygion mewn perthynas â chasglu data am eiriolaeth annibynnol, a hefyd am weithredu'r dyletswyddau hollgyffredinol, os yw'r data hyn i ateb eu diben. Rhaid i lywodraethau cenedlaethol a lleol allu cael sicrwydd bod y dyletswyddau cyfreithiol sydd wedi'u pennu yn Neddf 2014 yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl sydd ag angen gofal a chymorth.

“Allwch chi ddim rheoli rhywbeth dydych chi ddim yn ei fesur.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

84 Ymateb Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a thrwy sgysiau â Swyddogion Llywodraeth Cymru

85 Y Datganiad Ystadegol Cyntaf, Adults receiving care and support in Wales, 2016-17 (Experimental statistics)

86 Adran 6(2)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

87 Y Datganiad Ystadegol Cyntaf, Adults receiving care and support in Wales, 2016-17 (Experimental statistics)

88 ibid

4.2 Data ar ddiogelu

Ar ben y diffyg data dibynadwy am eiriolaeth o dan Ddeddf 2014, nid yw'r data am ddiogelu oedolion⁸⁹ yn cynnwys unrhyw ddata am y defnydd o eiriolaeth annibynnol. Mae hyn yn peri pryder o ystyried y gofyniad bod 'rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r angen i helpu i amddiffyn oedolion a phlant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso'⁹⁰. Mae Deddf 2014 yn gweithredu ar y disgwyliad a nodwyd yn fy Achos Busnes dros Wasanaethau Eiriolaeth⁹¹ a hefyd yn Lle i'w Alw'n Gartref?⁹² am gynnig eiriolaeth annibynnol pan yw person hŷn yn profi, neu mewn perygl o brofi, cam-drin corfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol. Fodd bynnag, ni ellir gwybod a yw'r gofyniad cyfreithiol hwn wedi'i wireddu am nad oes data ar gael am y defnydd o eiriolaeth annibynnol anstatudol neu statudol, fel eiriolaeth gan IPA neu IMCA, yn ystod ymchwiliadau diogelu.

Ceir gwahaniaethau o hyd yn y dull o gofnodi'r defnydd o eiriolaeth annibynnol yn ystod prosesau diogelu rhwng timau diogelu mewn Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, er fy mod wedi nodi bod y mater hwn yn peri pryder yn 2015 yn fy natganiad sefyllfa 'Troseddau yn erbyn, a cham-drin, pobl hŷn yng Nghymru'⁹³. Er nad yw'r data hyn ar gael ar lefel genedlaethol, mae rhai data yn cael eu casglu ar lefel leol, a'r rhain yn cynnwys data am bresenoldeb eiriolwyr annibynnol neu unigolion priodol mewn cynadleddau achos yn ogystal â gwybodaeth ynghylch a yw atgyfeiriad wedi'i wneud, ymysg pethau eraill. Dywedodd rhai cyrff fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i eiriolwyr annibynnol ar sail amgylchiadau'r achos dan sylw ac mai dim ond yng nghofnod achos yr unigolyn neu yn y cofnod diogelu y byddent yn cael eu nodi.

Mae'r amrywiadau hyn wrth gasglu data am y defnydd o eiriolaeth annibynnol yn ystod y broses diogelu yn rhwystr am nad ydynt yn rhoi sicrwydd bod hawl gyfreithiol y person i gael eiriolwr yn cael ei hystyried. Yn 'Troseddau yn erbyn, a cham-drin, pobl hŷn yng Nghymru'⁹⁴ nodwyd bod dioddefwyr cam-drin yn fwy tebygol o ymwneud â darparwr gwasanaeth cyfiawnder os oeddent yn cael treulio mwy o amser gydag un gweithiwr er mwyn meithrin perthynas, sicrhau ymddiriedaeth a datblygu cysylltiad, a bod model ymarfer yr eiriolwr yn fwy tebygol o rymuso'r person hŷn na'r dull 'rheoli achosion' presennol. Ategwyd hyn gan ymarferwyr a ddywedodd: 'documenting information about the clients' social contacts would benefit case management, improve the accuracy of risk assessment and increase the effectiveness of any subsequent action plans'⁹⁵.

89 Y Datganiad Ystadegol Cyntaf, Experimental Statistics: Adult safeguarding, 2016-17

90 Paragraff 67, Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth

91 Achos Busnes dros Wasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Mai 2014

92 Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Tachwedd 2014

93 Troseddau yn erbyn, a cham-drin, pobl hŷn yng Nghymru: Cael cymorth a chyfiawnder: cydweithio, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ionawr 2015

94 ibid

95 ibid

Mae'r diffyg data i ddangos y defnydd o eiriolaeth annibynnol yn ystod y broses diogelu o dan Ddeddf 2014 ar lefel genedlaethol ac yn gyson ar lefel leol yn peri pryder. Rhaid gwneud rhagor i ddelio â'r mater hwn er mwyn cael sicrwydd bod hawliau rhai o'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed – y rheini sy'n profi neu sydd mewn perygl o brofi cam-drin ac esgeuluso – yn cael eu cynnal a bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Yn fy adolygiad diweddar o fesurau diogelu mewn ysbytai⁹⁶, nodwyd bod Byrddau Iechyd wedi dweud eu bod yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â phenodi IMCAs ac IMHAs yn y broses diogelu, ond nad yw pob un ohonynt wedi cydnabod y dyletswyddau o dan Ddeddf 2014 mewn perthynas ag Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol pan fydd claf yn destun ymchwiliad diogelu. Dangosodd nad yw Byrddau Iechyd yn casglu data am eu hatgyfeiriadau ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac felly na fyddant yn gallu cael sicrwydd eu bod yn cydymffurfio â Deddf 2014 wrth gynnal ymchwiliadau ar ran Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn codi cwestiwn pellach ynghylch y graddau y mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd adrodd am eu camau i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mewn perthynas â darparu eiriolaeth annibynnol wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac yn fwy cyffredinol.

Gan nad oes adroddiadau ar ddata cenedlaethol am y defnydd o eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol, ni ellir gwybod i ba raddau y mae'n cael ei defnyddio'n gyson ac yn briodol yn ystod y broses diogelu. Yn ogystal â hynny, nid yw'r data presennol yn ddigon dibynadwy i ganiatáu cymharu setiau data⁹⁷ er mwyn dangos cydberthyniad neu achosiad, fel cymharu nifer y bobl sy'n defnyddio eiriolaeth annibynnol mewn Awdurdod Lleol â nifer yr adroddiadau am 'oedolion mewn perygl' yn yr un Awdurdod Lleol. Mae'n glir bod angen cael fframwaith perfformiad strategol cyffredin a chadarn.

Mae'r data yn dangos bod 53% o'r achosion o gam-drin ac esgeuluso wedi'i gyflawni gan weithwyr cyflogedig a bod 27% arall wedi'i gyflawni gan berthynas neu ffrind. Mae hyn yn dangos ymhellach fod eiriolaeth annibynnol yn angenrheidiol gan nad yw bob amser yn briodol bod aelodau o'r teulu neu ffrindiau, neu weithwyr cyflogedig, yn eirioli fel rhan o'u rôl, i gynrychioli person, yn enwedig yn ystod y broses diogelu.

Mae'n ofynnol bod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r byrddau diogelu oedolion (a'r byrddau diogelu plant) ledled Cymru i sicrhau eu bod yn effeithiol, yn adrodd bob blwyddyn ar

96 Review of the Actions which Health Boards are taking to ensure that older people who are hospital in-patients are safeguarded from harm in line with the requirements of the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ionawr 2018

97 Data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, Adults receiving care and support in Wales, 2016-17 (Experimental statistics) a'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, Experimental Statistics: Adult safeguarding, 2016-17

effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion ac i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru am unrhyw welliannau sydd eu hangen. Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar gyfer 2016-17 yn dweud '[nad] yw'n bosibl eto i roi adrodd cywir am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion'⁹⁸ am nad oedd y Bwrdd wedi dechrau gweithredu tan 6 Ebrill 2016, ond bod y Bwrdd yn bwriadu casglu data am nifer o feysydd, yn cynnwys 'sut mae Byrddau Diogelu yn cyflawni eu swyddogaethau statudol', i gwrdd â'i amcanion. Gan fod Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi cyn cyhoeddi'r Adroddiadau Blynyddol rhanbarthol ar Ddiogelu Oedolion, mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol yn nodi mai dim ond canfyddiadau interim y gellir eu rhoi. Er fy mod yn cydnabod y pwynt hwn, mae'n siomedig nad yw'r defnydd o eiriolaeth neu'r diffyg data am ddefnyddio eiriolaeth wedi'i nodi'n destun pryder yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol. Er hynny, mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol yn nodi y bydd camau'n cael eu cymryd yn y dyfodol i ddysgu gwersi o'r data am ddiogelu ac mae hyn i'w groesawu. Nid oes nemor ddim cyfeiriadau at y defnydd o eiriolaeth annibynnol a'r angen i gasglu data amdano yn Adroddiadau Blynyddol neu Gynlluniau Gweithredu'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Felly mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod data ar gael i ddangos lefel y defnydd o eiriolaeth annibynnol yn ystod y broses diogelu.

4.3 Data am IMCAs

Yn 'Llais, Dewis a Rheolaeth'⁹⁹ nodwyd bod angen i Awdurdodau Lleol gasglu gwybodaeth am y gwasanaethau IMCA sydd ar gael yn eu hardal leol a pha mor aml y mae IMCAs yn cael eu cyfarwyddo. Er hynny, mae'n ymddangos nad yw data ar gael i'r cyhoedd i ddangos y cynnig a'r defnydd o wasanaethau IMCA, y tu allan i'r broses Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (TDAR). Mae'r diffyg data hwn yn codi amheuan ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gael sicrwydd bod hawliau rhai o'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael eu cynnal, a bod y cyllid sydd wedi'i ddarparu'n ddigon i ateb yr angen.

Mae'r diffyg atgyfeiriadau i wasanaethau IMCA pan wneir ceisiadau TDAR yn fater sydd wedi'i nodi'n aml gennyf yn fy ngwaith achosion. Yn eu Hadroddiad Monitro Blynyddol¹⁰⁰, mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn nodi bod nifer y ceisiadau am TDAR wedi cynyddu 16 gwaith o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol¹⁰¹ a bod nifer yr achosion lle penodwyd IMCA wedi

98 Bwrdd Diogelu Gwladol Annibynnol Cymru, Adroddiad Blynyddol 2016 –17

99 Llais, Dewis a Rheolaeth, Argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth annibynnol dros Gymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Medi 2012

100 Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Iechyd 2014-15, AGGCC ac AGIC

101 O 631 o geisiadau yn 2013-14 i 10,679 o geisiadau yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Iechyd 2014-15, AGGCC ac AGIC

codi o 79 yn 2013-14 i fwy na 500. Er hynny, mae'r adroddiad yn dangos nad yw'r cynnydd hwn yn y defnydd o IMCAs yn ddim ond 5% o gyfanswm yr awdurdodiadau TDAR, oherwydd y cynnydd mawr yn nifer y ceisiadau TDAR yn 2014-15. Mae'r data hyn am y defnydd o IMCAs yn y broses TDAR yn dangos ei fod wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn¹⁰².

Er bod y data sydd ar gael am atgyfeiriadau i IMCAs yn y broses TDAR i'w croesawu, mae'r duedd a welir yn y data hyn yn peri pryder, gan fod cyfradd yr atgyfeiriadau i IMCAs yn ystod y broses TDAR yn gostwng. Mae AGC ac AGIC yn nodi yn eu hadroddiad, mewn perthynas â'r heriau a gafwyd i geisiadau TDAR, fod 'the appointment of an IMCA appears to make a difference as nearly half of referrals [to the Court of Protection] occurred when an IMCA had been appointed'¹⁰³. Mae hyn yn dangos yn glir pa mor bwysig yw llais yr unigolyn yn y broses TDAR a'r wybodaeth arbenigol sydd ei hangen i sicrhau bod hawliau'r person yn cael eu cynnal. Er bod adroddiad AGC ac AGIC yn nodi droeon fod cyfradd yr atgyfeiriadau i IMCAs yn fater sy'n peri pryder, nid yw'n ymddangos bod mesurau ar waith i ddelio â'r gostyngiad hwn.

Mae'n bwysig cael data dibynadwy ond rhaid eu defnyddio i sbarduno newid. Nid yw'n glir sut mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'u defnyddio wedyn, ac mae hyn yn peri pryder. Felly mae'r adolygiad diweddar o TDAR gan Gomisiwn y Gyfraith¹⁰⁴ i'w groesawu. Fodd bynnag, os ceir system newydd, rhaid cael dull effeithiol o fonitro data ar ei chyfer i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael gwasanaeth IMCA lle mae ganddynt hawl i hynny. Mae'n destun pryder nad yw'n ymddangos bod data ar gael i'r cyhoedd am y defnydd o IMCAs yng Nghymru, ar wahân i'r defnydd ohonynt mewn TDAR. Mae hyn yn destun pryder am fod diffyg data yn codi amheuan ynghylch gallu llywodraethau lleol a chenedlaethol i gael sicrwydd bod hawliau pobl sydd heb alluedd yn cael eu cynnal.

Er bod Llywodraeth Cymru yn casglu data ar hyn o bryd mewn perthynas â Rhan IV¹⁰⁵ o Fesur Iechyd Meddwl 2010, nid yw'r rhain ar gael i'r cyhoedd er ei bod yn bosibl, yn dilyn sgysiau a gefais â swyddogion mewn perthynas â'r adroddiad hwn, y bydd y data a gesglir yn cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru¹⁰⁶ cyn hir. Byddai croeso i hyn gan fod y data sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd yn cynnwys nifer o fesurau sy'n ymwneud â gwasanaethau IMHA, yn cynnwys nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau IMHA ar hyn o bryd ledled Cymru.

102 O 12.5% yn 2013-14 i 5% yn 2014-15. Gostyngodd o fwy na 500 yn 2014/15 i 336 yn 2015/16 yn ôl Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Iechyd 2015-16, AGGCC ac AGIC

103 Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Iechyd 2014-15, AGGCC ac AGIC

104 Review of the Mental Capacity Act and the Deprivation of Liberty Safeguards (DoLS), Comisiwn y Gyfraith, Mawrth 2017

105 Mae Rhan IV o Fesur Iechyd Meddwl 2010 yn cynnwys gofynion ar gyfer darparu eiriolaeth

106 Mae Statswales.gov.uk yn darparu data swyddogol manwl am Gymru

5. Nid yw'r broses cynllunio ar gyfer eiriolaeth annibynnol yn ddigonol

Heb wybod anghenion y boblogaeth, ni ellir diwallu anghenion yn ddigonol. Os nad ydym yn gwybod beth yw nifer y gwasanaethau sydd eu hangen i ddarparu lefel briodol o gymorth i bobl sydd ag angen gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, ni chawn wybod a yw'r cyflenwad presennol yn ddigonol.

Rhaid seilio pob proses cynllunio ar wybodaeth am yr angen am wasanaethau eiriolaeth annibynnol nawr ac yn y dyfodol, yn cynnwys yr angen am fathau mwy arbenigol o eiriolaeth annibynnol. Mae angen cael dealltwriaeth fanwl o angen y boblogaeth am eiriolaeth annibynnol er mwyn cynllunio'n effeithiol i ddiwallu'r angen hwn.

5.1 Aseidiadau Poblogaeth

Yn Ebrill 2017, roedd yn ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fod pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn gwneud asesiad ar y cyd â'i Fwrdd Iechyd Lleol o anghenion gofal a chymorth ei boblogaeth leol. Pwrpas yr Aseidiadau Poblogaeth hyn, yn ogystal ag adnabod anghenion gofal a chymorth cyfredol, yw pennu anghenion gofal a chymorth yn y dyfodol a nodi'r gwasanaethau y bydd eu hangen i gwrdd â'r anghenion hynny. Er mwyn darparu canllawiau i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar lunio eu Haseidiadau Poblogaeth, cyhoeddwyd pecyn cymorth sy'n disgrifio'r meysydd sydd i'w cynnwys yn adroddiadau'r Aseiad Poblogaeth.

Er bod y pecyn cymorth yn dweud yn glir fod rhaid i'r adroddiadau 'amlinellu'r asesiad o wasanaethau ataliol, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth'¹⁰⁷, mae dau Adroddiad Aseiad Poblogaeth (sy'n cwmpasu ardaloedd pum Awdurdod Lleol) heb gyfeiriad at eiriolaeth¹⁰⁸. Nid yw gweddill yr Adroddiadau Aseiad Poblogaeth yn rhoi sylw manwl i eiriolaeth annibynnol, hyd yn oed lle mae'r adroddiad ei hun yn nodi ei bod yn bwysig. Siomedig yw nodi mai dim ond diffiniad o beth yw eiriolaeth a sut mae'n gallu helpu pobl sydd mewn nifer o'r Adroddiadau, ac nad oes ond cyfeiriadau byr yn y lleill at yr angen i fapio darpariaeth eiriolaeth yn y dyfodol. Mae'n ymddangos nad oes nemor ddim cyfeiriadau at fathau eraill o eiriolaeth, fel eiriolaeth annibynnol statudol (e.e. IMCA ac IMHA). Yr unig gyfeiriad at IMHAs yw esboniad o'u gwaith, ac nid yw IMCAs ond yn cael eu crybwyll yng nghyd-destun diogelu drwy ddiffinio rôl yr IMCA yn unig.

“Doeddwn i ddim wedi cael fy nghynnwys yn yr Aseidiadau Poblogaeth – dyw eiriolaeth ddim yn ystyriaeth bwysig yn yr adroddiad a gafodd ei gyhoeddi.”
– Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

107 Pecyn Cymorth Aseiad Poblogaeth, Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Ebrill 2016

108 Nid oes cyfeiriad at eiriolaeth yn y brif ddogfen gryno nac yn yr un o'r adroddiadau am bynciau penodol sy'n cynnwys meysydd fel iechyd meddwl.

Er bod hyn i'w ddisgwyl o bosibl gan fod Asesiadau Poblogaeth yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf, mae'n codi pryderon ynghylch graddau'r integreiddio rhwng gwasanaethau cyhoeddus – yn enwedig rhwng gwasanaethau ieched a gwasanaethau cymdeithasol gan ei bod yn ofynnol i Fyrddau Iechyd gyfrannu i'r Asesiadau Poblogaeth. Mae'r ffaith na welir dull cydgysylltiedig o weithio yn codi amheuan ynghylch effeithiolrwydd y broses cynllunio os nad oes pwyslais ar ddull poblogaeth gyfan o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn peri pryder wrth ystyried y bylchau a geir yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd, fel y rhai mewn gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i bobl mewn ysbytai sydd heb hawl i gael eiriolaeth annibynnol statudol.

Ni ddarparwyd gwybodaeth llinell sylfaen am faint y ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol sydd ar gael ar hyn o bryd mewn unrhyw un o'r Adroddiadau Asesiad Poblogaeth ac nid ydynt yn nodi unrhyw fylchau neu ragolygon am anghenion yn y dyfodol. Yn yr un modd, nid oes gwybodaeth yn yr adroddiadau am y gwasanaethau IMHA neu IMCA sydd ar gael ar hyn o bryd. Enwir nifer o grwpiau gwahanol yn yr Adroddiadau Asesiad Poblogaeth, yn cynnwys pobl ag anabledd dysgu, pobl sydd ag anhwylder ieched meddwl a phobl hŷn, y gall pob un ohonynt fod ag angen eiriolwyr annibynnol â gwahanol sgiliau. Er hynny, nid oes cyfeiriad at y gwahanol fathau o eiriolaeth annibynnol a allai fod yn angenrheidiol o ystyried yr anghenion gofal a chymorth a nodwyd ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl. Gwaith digon ymarferol yw dadansoddi data am grwpiau penodol o bobl i amcangyfrif maint y galw am eiriolaeth annibynnol: bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia, er enghraifft, yn dangos y bydd angen cynnydd cymesur yn nifer yr eiriolwyr annibynnol sy'n gallu gweithio yn y maes hwn. Mae'n destun pryder na wnaed y cysylltiad hwn yn yr un o'r Adroddiadau Asesiad Poblogaeth.

Collwyd cyfle pwysig yn hyn o beth ac mae'n peri pryder ynghylch effeithiolrwydd Asesiadau Poblogaeth fel offeryn i 'sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u datblygu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus er mwyn hyrwyddo llesiant pobl ag anghenion gofal a chymorth'¹⁰⁹.

“Mae'r angen am eiriolaeth yn cynyddu ond fyddan nhw ddim yn cael gwybod hynny am nad ydyn nhw am ateb yr her.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae'r diffyg sylw i ddarparu eiriolaeth annibynnol yn yr Adroddiadau Asesiad Poblogaeth yn arwyddocaol, gan ei fod yn awgrymu nad yw pwys yn cael ei roi ar eiriolaeth annibynnol ac mai ôl-ystyriaeth yw eiriolaeth annibynnol wrth weithredu Deddf 2014. Dywedodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, Huw Irranca-Davies, y bydd yr Adroddiadau Asesiad Poblogaeth yn 'helpu'r gwasanaeth ieched, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill i siapio polisi a'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu er mwyn rhoi'r gofal a'r cymorth sydd arnynt eu hangen i bobl, ar

¹⁰⁹ Paragraff 79, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

yr adeg pan fo'i angen¹¹⁰. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut bydd y nod hwn yn cael ei gyflawni mewn perthynas â darparu eiriolaeth annibynnol o ystyried y diffyg sylw i'r maes hwn mewn Adroddiadau Asesiad Poblogaeth.

Mae gan Fyrddau Iechyd ran bendant i'w chwarae wrth lunio Asesiadau Poblogaeth, yn gyffredinol ac mewn perthynas â darparu eiriolaeth annibynnol yn benodol. Dylai Asesiadau Poblogaeth roi'r cyfle i asesu unrhyw angen am eiriolaeth annibynnol sydd heb ei ddiwallu mewn lleoliadau gofal iechyd. Er enghraifft, mae Canllaw Llywodraeth Cymru ar Ariannu Gofal Parhaus yn nodi y 'dylai BILlau ac awdurdodau lleol sicrhau bod unigolion yn cael gwybod am wasanaethau eirioli lleol a all gynnig cyngor a chymorth iddynt'¹¹¹. Mae'r Canllaw yn datgan yn glir fod 'angen i BILlau ... ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau i sicrhau bod gwasanaethau eirioli digonol ar gael i'r rhai sy'n gymwys neu a allai fod yn gymwys i gael GIP'¹¹² er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael i'r rheini a all fod yn anghymwys i gael gwasanaeth IMCA ond sydd ag angen eiriolaeth annibynnol. O ystyried diben yr Asesiadau Poblogaeth, byddai disgwyl gweld cyfeiriadau at ddarparu eiriolaeth annibynnol yng nghyswllt gwasanaethau iechyd ac mae'n destun pryder nad oes cyfeiriadau o'r fath ac yn golygu bod cyfle wedi'i golli.

Mae un Adroddiad Asesiad Poblogaeth yn nodi'r angen am 'edrych ar drefniadau comisiynu'r cynghorau a'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer gwasanaethau eirioli, er mwyn cydnabod unrhyw orgyffwrdd posibl yn y trefniadau, ac ymateb iddo'¹¹³, ac mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag, mae'r hyn sy'n ymddangos yn ddiffyg cydweithio wrth lunio Asesiadau Poblogaeth rhwng Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas â darparu eiriolaeth annibynnol, o dan Ddeddf 2014 a hefyd mewn perthynas â darparu eiriolaeth annibynnol statudol yn gyffredinol, yn peri pryder. Tynnwyd sylw at y mater hwn yn y canfyddiadau o'm Hadolygiad o Drefniadau Diogelu Byrddau Iechyd¹¹⁴, a ddaeth i'r casgliad nad yw Byrddau Iechyd yn ymddangos eu bod yn ymwybodol o'r cyfle i gydgomisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol gydag Awdurdodau Lleol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau diogelu o dan Ddeddf 2014.

Pwrpas gwreiddiol yr Asesiadau Poblogaeth oedd 'sicrhau bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cyd-gynhyrchu sail dystiolaeth glir a phenodol mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr fel sail i'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau statudol'¹¹⁵ a 'sbarduno newid, gan gynnwys trwy alluogi

110 Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, Rhagfyr 2017 - <http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/assessment/?lang=cy>

111 Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2014

112 ibid

113 Tudalen 10, Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru, Ebrill 2017

114 Review of the Actions which Health Boards are taking to ensure that older people who are hospital in-patients are safeguarded from harm in line with the requirements of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ionawr 2018

115 Paragraff 79, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio ar ymagweddau ataliol at anghenion gofal a chymorth¹¹⁶. Felly mae'n destun pryder bod Adroddiadau Asesiad Poblogaeth yn methu i bob golwg â chyflawni'r nod hwn mewn perthynas â'r dystiolaeth y maent yn gallu ei darparu ar yr angen am wasanaethau eiriolaeth annibynnol nawr ac yn y dyfodol ym mhob rhan o Gymru.

Mae Adroddiad Cenedlaethol Asesu'r Boblogaeth¹¹⁷ wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar i grynhoi prif ganfyddiadau'r Adroddiadau Asesiad Poblogaeth cyntaf, ac mae hyn i'w groesawu. Mae'r Adroddiad yn nodi nad yw'n 'rhoi barn am ansawdd yr asesiadau poblogaeth, ac nid yw'n cynnig argymhellion ar beth allai'r rhanbarthau ei wneud i wella eu hasesiadau'¹¹⁸ a bod y 'themâu yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio'n llwyr ar y wybodaeth yn yr adroddiadau asesu'r boblogaeth a gyhoeddwyd ar gyfer pob rhanbarth'¹¹⁹. Mae hyn yn peri pryder ac yn codi amheuon ynghylch y graddau y gellir dibynnu ar y data mewn Asesiadau Poblogaeth a maint y sicrwydd y gellir ei roi mewn perthynas â'u cynnwys. Mae gan Lywodraeth Cymru ran bendant i'w chwarae mewn sicrhau ansawdd Adroddiadau Asesiad Poblogaeth ar lefel leol er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol cywir a thrwyadl yn cael ei greu o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth. Er bod y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant yn nodi mewn perthynas â'r Adroddiad Cenedlaethol Asesu'r Boblogaeth cyntaf 'Am y tro cyntaf erioed, mae gennym ni nawr drosolwg defnyddiol iawn o anghenion gofal a chymorth ledled Cymru'¹²⁰, mae'n amheus a yw hyn yn wir am y ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth.

“Y peth pwysicaf yw gwybod beth fydd yr angen. Sut allwch chi brisio rhywbeth os nad ydych chi'n gwybod y nifer fydd ag angen gwasanaeth?”

– Comisiynydd

5.2 Comisiynu a dyletswyddau statudol

Mae Deddf 2014 wedi rhoi Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar sail statudol am y tro cyntaf yng Nghymru, gan ateb fy ngalwadau am ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi'r gallu i dderbyn eiriolaeth annibynnol fel bod y rheini sydd ag angen cymorth i beri i'w lleisiau gael eu clywed yn gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a chymorth (neu gymorth yn achos gofalwyr). Er bod hyn i'w groesawu, mae'n bwysig bod y ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol statudol yn mynd law yn llaw â darparu eiriolaeth anstatudol: rhaid i'r gofyniad i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol beidio â bod ar draul mathau eraill, anstatudol o eiriolaeth annibynnol.

(Cymru) 2014

116 Paragraff 80, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

117 Gofal a chymorth yng Nghymru: adroddiad cenedlaethol asesu'r boblogaeth, Gofal Cymdeithasol Cymru, Tachwedd 2017

118 ibid

119 ibid

120 Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru, Rhagfyr 2017 - <http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/assessment/?lang=cy>

Gan fod rhaid cynnwys eiriolaeth yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth am wasanaethau ataliol¹²¹, rhaid darparu eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol o dan Ddeddf 2014.

“Dyw’r ariannu ddim wedi’i seilio ar angen.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Wrth i ymwybyddiaeth godi ymysg y cyhoedd, felly hefyd fydd y galw am gyflawni’r ddyletswydd. Bydd costau’n cynyddu.” – Rhanddeiliad

“Dyw eiriolaeth ddim yn cael ei gweld yn ddiddorol – dyw’r cyrff ariannu ddim yn gweld ei gwerth.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Er bod rhai darparwyr eiriolaeth annibynnol yn gobeithio y bydd cyflwyno Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol yn codi statws eiriolwyr annibynnol i’r un lefel â mathau eraill o eiriolwyr annibynnol statudol, mae llawer o bryder ac ansicrwydd yn y sector eiriolaeth ynghylch beth fydd y sefyllfa yn y dyfodol o ran gwasanaethau eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol o dan Ddeddf 2014.

Ar hyn o bryd, mae’r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn comisiynu amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth annibynnol, yn amrywio o eiriolaeth gan gymheiriaid i eiriolaeth broffesiynol annibynnol¹²². Mae cylch gwaith nifer o’r gwasanaethau eiriolaeth hyn yn ehangach o lawer na gwasanaethau cymdeithasol yn unig, ac maent yn gweithio gyda’u cleientiaid ar faterion sy’n amrywio o dai i gyfraith teulu. Er ei bod yn ymddangos bod comisiynwyr yng Nghymru’n cydnabod yr anfanteision o ariannu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn unig ar draul mathau eraill o eiriolaeth, mae angen craffu i sicrhau, yn yr hinsawdd ariannol anodd hon, fod yr holl Awdurdodau Lleol yn parhau i ariannu eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol.

“Mae nifer mawr o awdurdodau lleol yn meddwl am eiriolaeth yn ei hystyr ehangaf – mae eiriolaeth gymunedol wedi diflannu yn Lloegr. Efallai mai hynny yw’r rheswm am yr oedi wrth gomisiynu am eu bod nhw’n ceisio deall y farchnad.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Rydyn ni’n cydnabod yr angen am fathau eraill o eiriolaeth – eiriolaeth ataliol yn ogystal ag eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Fodd bynnag, mae’n anodd ariannu’r ddau.” – Comisiynydd

Mae Prosiect Eiriolaeth yr Edau Euraidd (PEEE), a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a’i hwyluso gan Age Cymru, wedi darparu capasiti mawr ei angen i

121 Paragraff 136, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

122 Eiriolaeth broffesiynol annibynnol – partneriaeth un i un rhwng eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi’i hyfforddi i weithio fel eiriolwr proffesiynol am dâl. Gall y gwaith ymwneud ag un pwnc neu bynciau lluosog. Mae’n rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau bod safbwyntiau unigolion yn cael eu cyfleu yn gywir, waeth beth yw safbwynt yr eiriolwr neu safbwynt eraill ynglŷn â’r hyn sydd o fudd pennaf i’r unigolion, Paragraff 32, Cod Ymarfer Rhan 10 ar Eiriolaeth, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

gomisiynwyr sy'n gweithio i weithredu Deddf 2014, ac roeddent yn unfryd yn eu canmoliaeth i'r cymorth y mae PEEE wedi'i ddarparu. Yn ogystal â chydweithio â chomisiynwyr a darparwyr eiriolaeth, mae PEEE wedi gweithio i ddatblygu Fframwaith Comisiynu Eiriolaeth¹²³. Mae hyn i'w groesawu, gan ei fod yn ymateb i'r canfyddiadau yn fy adroddiad 'Llais, Dewis a Rheolaeth'¹²⁴ a oedd yn tynnu sylw at ddiffyg cydlyniant a chysondeb wrth asesu anghenion a chynllunio i ddarparu eiriolaeth. Er bod y gwaith hwn wedi dechrau, mae'r amser a gymerir i bob golwg i gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth newydd, a'r cynlluniau gwaith mewn rhai Awdurdodau Lleol sy'n cymryd bron dwy flynedd i gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth, yn peri pryder o hyd ac nid yw'n glir beth yw'r rheswm am hyn.

5.3 Rheoleiddio

Er bod y gwaith yn parhau ar bennu'r paramedrau ar gyfer y mathau o eiriolaeth a fydd yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n anodd rhag-weld beth fydd effaith hyn ar y sector. Roedd darparwyr eiriolaeth yn gefnogol at ei gilydd i'r newid i reoleiddio'r ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol, gan ddweud y byddai o gymorth i godi statws y sector, ond roeddent hefyd yn pryderu am y math o reoleiddio a fyddai ar waith a'i effaith bosibl ar eu sefydliadau.

Gofynnwyd i Grŵp Technegol Llywodraeth Cymru ar Eiriolaeth gynghori Llywodraeth Cymru ar ffyrdd o gymhwyso'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig¹²⁵ newydd at wasanaethau eiriolaeth. Ni fydd canlyniad y gwaith hwn yn hysbys tan wanwyn 2018 pan gyhoeddir y rheoliadau hyn ar gyfer ymgynghori, na'r diffiniad o'r mathau o wasanaethau eiriolaeth a fydd yn cael eu rheoleiddio. Mae'n hollbwysig bod y rheoliadau newydd hyn yn ateb eu diben a'u bod yn cydnabod ymgymeriadau unigryw'r gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a'r gwahaniaeth rhyngddynt a gwasanaethau rheoleiddiedig eraill. Ni fydd yn ddigon addasu'r rheoliadau drafft presennol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig, fel y rheini ar gyfer darparu cartrefi gofal.

Mae'r ansicrwydd presennol ynghylch sut bydd y gofynion cofrestru yn cael eu cymhwyso at y sector eiriolaeth yn peri pryder i ddarparwyr eiriolaeth sydd am allu cynllunio'n effeithiol ar gyfer dyfodol eu sefydliad. Yn ogystal â hyn, bydd rheoleiddio gwasanaethau eiriolaeth yn faes newydd i Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd yn hollbwysig bod gwybodaeth dda gan y rheoleiddiwr gwasanaethau am y sector eiriolaeth a'r ffordd orau i'w gefnogi drwy'r broses rheoleiddio.

Mae'r ffaith nad oes corff i gynrychioli eiriolaeth yng Nghymru wedi'i nodi fel testun pryder posibl, yn enwedig o ystyried maint y newid y mae'r sector eiriolaeth yn

123 Implementing the Code of Practice on Advocacy, Self-Assessment Tool for Commissioners, Golden Thread Advocacy Programme, Tachwedd 2016

124 Llais, Dewis a Rheolaeth, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Medi 2012

125 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

ei wynebu ar hyn o bryd gyda chyflwyno Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol a'r rheoleiddio sydd i ddod o dan Ddeddf 2016. Mae'n bwysig ystyried dyfodol hirdymor y sector eiriolaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y sector yn cael digon o gefnogaeth, yn enwedig mewn perthynas â rheoleiddio Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

Er na chafwyd cadarnhad am y mathau o eiriolaeth a fydd yn cael eu rheoleiddio, mae'n debygol iawn y bydd Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o dan Ddeddf 2014 yn un ohonynt. Mae comisiynwyr sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol wedi croesawu hyn gan y bydd yn helpu i roi sicrwydd iddynt am ansawdd y gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol y maent yn eu darparu. Fodd bynnag, roeddent hefyd wedi codi cwestiynau ynghylch eu hatgyfeiriadau ar gyfer mathau o eiriolaeth a fydd heb eu rheoleiddio, fel gwasanaethau IMCA, ac a fyddai hyn yn creu anawsterau o ran atebolrwydd.

5.4 Ariannu

Roedd ariannu'n faes a ddenodd sylw gan ddarparwyr eiriolaeth a chomisiynwyr. Roedd pryder ymysg comisiynwyr sy'n gweithio i weithredu'r gofynion am eiriolaeth o dan Ddeddf 2014 fod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud rhagor o waith heb ddarparu arian ychwanegol i gynnal y gwaith hwnnw. Er mai'r bwriad yw y bydd gweithredu Deddf 2014 yn niwtral o ran cost, a'r gwariant ar fesurau atal yn cael ei wrthbwysu gan arbedion yn y dyfodol, roedd pryder na fydd hyn yn digwydd mewn gwirionedd.

Allweddol yn hyn o beth yw cydnabod nad yw'r elw o fuddsoddi bob amser yn arwain at arbed arian go iawn: nid yw'n rhoi arian yn ôl ym mhoced yr Awdurdod Lleol ond yn golygu yn hytrach nad yw'n gorfod gwario arian yn y dyfodol neu fod arbedion yn cael eu creu i gyrff eraill. Ar ben hynny, mae'n bosibl na fydd unrhyw 'arbedion' a geir yn cael eu gwireddu tan y dyfodol; felly nid yw 'arbedion' yn adnodd y gellir ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau yn ystod y cyfnod cyntaf o weithredu'r Ddeddf. Oherwydd hyn, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol un ai aildyrannu arian presennol neu ddod o hyd i arian newydd i gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol o dan Ddeddf 2014. Er na ddywedwyd ei bod yn amhosibl datrys y mater hwn, cafwyd galwad glir am fwy o dystiolaeth i ddangos yr enillion o fuddsoddi mewn gwasanaethau eiriolaeth annibynnol fel offeryn ataliol.

“Dim cyllid ychwanegol – rydyn ni'n defnyddio'r arian presennol ac yn ailwampio'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.” – Comisiynydd

“Mae angen tystiolaeth o'r enillion o fuddsoddi mewn eiriolaeth i'w dangos i'r gwrthwynebwyr ac i argyhoeddi'r rhai uwch sy'n rheoli'r cyllidebau.”
– Comisiynydd

“Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o ddyletswyddau i awdurdodau lleol ond does dim cyllid ychwanegol.” – Rhanddeiliad

“Mae’n anodd profi’r ochr ataliol.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Dyweddodd darparwyr gwasanaethau eiriolaeth fod ansicrwydd ynghylch ariannu’n ystyriaeth wirioneddol wrth asesu hyfywedd y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Oherwydd yr hanes o ariannu tymor byr, a’r ansicrwydd wrth aros am wahodd tendrau newydd o dan Ddeddf 2014, roedd rhai gwasanaethau’n colli staff medrus a hyfforddedig am nad oeddent yn gallu cynnig y sicrwydd mewn swydd yr oedd ar staff ei angen.

“Mae angen contractau hirach er mwyn cadw pobl gymwysedig.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Dydy contractau ar y pryd ddim yn gweithio – does dim modd fforddio cadw eiriolwyr ymlaen heb gyllid.” – Darparwr Eiriolaeth

Bydd y Fframwaith Comisiynu ar gyfer Eiriolaeth¹²⁶, a ddatblygwyd gan y Rhaglen Eirioli Edau Euraidd mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, yn cael ei weithredu cyn hir. Dylai hyn fod o gymorth i ddarparu cyllid dros y tymor hwy ar gyfer Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o dan Ddeddf 2014. Er bod y Fframwaith wedi’i fwriadu ar gyfer darparu’r elfen statudol o eiriolaeth annibynnol o dan Ddeddf 2014, fe ddylai’r offeryn hunanasesu sy’n rhan o’r Fframwaith fod yn sbardun i Awdurdodau Lleol feddwl am fathau eraill o eiriolaeth wrth gynnal eu hasesiad. Mae hyn i’w groesawu ac, os caiff ei weithredu’n gywir, dylai arwain at gomisiynu mathau eraill o eiriolaeth, fel eiriolaeth gan gymheiriaid neu eiriolaeth annibynnol, sy’n gweithredu fel offeryn ataliol i leihau neu ohirio angen y person am ofal a chymorth, yn ogystal ag Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

Dyweddodd nifer o ddarparwyr eiriolaeth ei bod yn dod yn fwy anodd dod o hyd i gyllid heblaw hynny o ffrydiau ariannu Awdurdodau Lleol. Rydym yn gwybod bod nifer o ddarparwyr cyllid fel y Loteri Fawr na fyddant yn ariannu gwasanaeth lle mae dyletswydd statudol ar wasanaethau cyhoeddus i’w ddarparu. Gan fod dyletswydd statudol nawr ar Awdurdodau Lleol i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a mathau eraill o eiriolaeth yn rhan o’u dyletswydd i ddarparu gwasanaethau ataliol, mynegwyd pryderon ynghylch a fydd gwasanaethau eiriolaeth, yn cynnwys gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, yn gallu sicrhau cyllid o ffynonellau allanol fel roeddent o’r blaen. Mae pryder na fydd y nod o sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn cael ei gyflawni os na cheir cyllid penodol ar ei gyfer neu drosolwg effeithiol ar y gwariant cenedlaethol ar yr holl wahanol fathau o eiriolaeth, yn cynnwys eiriolaeth annibynnol. Mae hyn yn destun pryder oherwydd, os na fydd cyllid priodol ar gael i gwrdd â’r angen a nodwyd, mae eiriolaeth annibynnol yn debygol o barhau’n ‘ôl-ystyriaeth’ wrth ddarparu gwasanaethau.

Testun pryder ychwanegol oedd pa mor annibynnol y mae sefydliad yn gallu bod

¹²⁶ Implementing the Code of Practice on Advocacy: Self-Assessment Tool for Commissioners, Golden Thread Advocacy Programme – ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, Tachwedd 2016

os yw'n cael ei ariannu gan Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd. Roedd darparwyr eiriolaeth wedi mynegi pryderon mai po fwyaf y byddent yn herio corff penodol, mwyaf tebygol oedd hi na fyddai eu contract yn cael ei adnewyddu. Gallai hyn beri pryder os bydd darparwyr eiriolaeth annibynnol yn cael eu hatal rhag herio mor aml ag y byddent yn dymuno oherwydd pwysau mewn cysylltiad ag ariannu tymor hir. Nid yw'n glir pa mor gyffredin yw'r pryder hwn, ond mae'n ddadl ychwanegol o blaid gwell monitro ac ystyriaeth i'r ffordd y mae contractau am wasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cae eu rhoi ledled Cymru.

“Dyw darparwyr ddim yn cael eu hailgomisiynu os ydyn nhw'n achosi gormod o broblem.” – Defnyddiwr Gwasanaeth Eiriolaeth

“Fydd byrddau iechyd ddim yn ein comisiynu os byddan nhw'n gorfod mynd i'r llys yn rhy aml. Dylai'r gwasanaeth gael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru neu gorff annibynnol.” – Darparwr Gwasanaeth Eiriolaeth

Anghenion gweithredu

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu nifer o rwystrau sylweddol sy'n atal pobl hŷn ar hyn o bryd rhag derbyn eiriolaeth annibynnol, yn cynnwys amgylchiadau lle mae ganddynt hawl i'w chael. Mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd nawr i ddelio â'r meysydd hyn os yw Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod llais effeithiol gan bawb.

1. Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd sicrhau bod eu gweithluoedd yn ddigon medrus a hyfforddedig i fod yn wybodus am eiriolaeth annibynnol a'r buddion o'i defnyddio, a dylai hyn gynnwys gwybodaeth a chymwyseddau digonol mewn perthynas â'r hawliau cyfreithiol i gael eiriolaeth annibynnol statudol. Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd graffu ar effeithiolrwydd cymwyseddau eu gweithluoedd mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol.

Drwy hybu dealltwriaeth o fuddion eiriolaeth annibynnol a'r rhan y mae'n gallu ei chwarae yn ymarfer gweithwyr proffesiynol, bydd mwy o allu i sicrhau bod pobl yn cael cymorth priodol pan fydd arnynt ei angen. Er mwyn i weithwyr proffesiynol ddeall gwerth eiriolaeth annibynnol, rhaid iddynt hefyd ddeall pa mor bwysig yw gwrando'n effeithiol ar bobl a gweithredu ar sail yr hyn y maent yn ei ddweud. Drwy sicrhau bod lleisiau pobl ar ganol penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ceir dull mwy effeithiol a chynaliadwy o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ogystal â deall buddion eiriolaeth annibynnol fel offeryn i sicrhau bod lleisiau pobl yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol gael eu hyfforddi'n drwyadl mewn perthynas â pha bryd y bydd ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i gynnig eiriolaeth annibynnol statudol neu ystyried angen y person amdani. Mae'n bwysig sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn deall ac yn ymwybodol o ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar eu harferion gweithio, yn cynnwys sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymwybodol o'r dyletswyddau diweddaraf sydd ganddynt o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rhaid cael craffu effeithiol ar lefel hyfforddiant y gweithlu a chymwyseddau staff mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol. Mae angen i gyrff corfforaethol gael sicrwydd am gydymffurfiaeth â'r gyfraith a bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n effeithiol, er mwyn cynnal hawliau unigolion a chydymffurfio â dyletswyddau statudol. Mae'n bwysig bod y diwylliant a'r arweinyddiaeth mewn cyrff cyhoeddus yn dangos yn glir y gwerth y maent yn ei roi ar gamau rhagweithiol i geisio barn yr unigolyn a gweithredu ar ei sail. Drwy sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n llawn, a bod diwylliant o wrando ar farn, dymuniadau a theimladau pobl yn bresennol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o bob math, bydd ansawdd gwasanaethau'n gwella a sicheir gwell canlyniadau llesiant i bobl.

2. Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd wella'r cynnig o eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol, gyda chmau gan Lywodraeth Cymru i wneud 'Cynnig Rhagweithiol' yn ofynnol ac i gynnwys pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a phobl hŷn sy'n aros am eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mae'n glir bod angen gwneud rhagor i wella'r cynnig o eiriolaeth annibynnol. Er mwyn ymateb i'r pryderon presennol ymysg darparwyr eiriolaeth a chomisiynwyr mewn perthynas â'r ffaith bod rhai pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a phobl hŷn mewn ysbytai sy'n aros am eu rhyddhau yn fwy agored i niwed, dylid ymestyn y 'Cynnig Rhagweithiol'.

Er bod hyn yn gymwys i'r holl bobl hŷn, mae'n arbennig o bwysig i'r bobl hŷn hynny sy'n ariannu eu gofal a chymorth eu hunain, ac na fyddai felly'n destun i adolygiad o'u Cynllun Gofal a Chymorth gan weithiwr cymdeithasol, ac i'r rheini sydd heb gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Er bod gofyniad, o dan Ddeddf 2014, am ystyried angen y person am eiriolaeth wrth adolygu Cynllun Gofal a Chymorth, nid yw'n glir pa mor effeithiol y mae'r ddyletswydd hon yn cael ei chyflawni oherwydd diffyg cofnodion data. Ar ben hynny, nid yw'n glir pa mor effeithiol yw'r broses ar gyfer asesu anghenion gofal a chymorth y rheini sy'n aros am eu rhyddhau o'r ysbyty, a hynny am yr un rheswm.

Mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn arbennig o agored i niwed gan eu bod yn dibynnu ar bobl eraill i ddiwallu eu hanghenion o ddydd i ddydd. Felly mae'n hollbwysig sicrhau bod llais effeithiol gan y bobl hyn sy'n fwy agored i niwed oherwydd eu sefyllfa – er mwyn eu galluogi i fwynhau ansawdd bywyd da ac i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n effeithiol rhag eu cam-drin a'u hesgeuluso. Byddai 'Cynnig Rhagweithiol' yn sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal sydd heb lais yn cael cynnig ystyrlon o eiriolaeth annibynnol, fel y byddant yn gallu gwneud dewis ar sail gwybodaeth ynghylch a fyddant yn derbyn gwasanaeth eiriolaeth annibynnol.

Nid yw pobl hŷn sy'n aros am eu rhyddhau o'r ysbyty, yn enwedig y rheini nad ydynt yn gwybod am y dewis o gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol neu am wneud y dewis hwnnw, yn cael cynnig cyfle bob amser i drafod eu hanghenion gofal a chymorth ar ôl dychwelyd i'r gymuned. Drwy dderbyn eiriolaeth annibynnol, gallant gael cymorth i ddysgu am eu hawliau a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn cynnwys pan fyddant yn ystyried symud o'r ysbyty i gartref gofal. Mae hyn yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaed yn 'Lle i'w Alw'n Gartref?'¹²⁷, a oedd yn tynnu sylw at yr angen i alluogi pobl i gymryd rhan yn llawn mewn penderfyniadau pwysig, fel rhai ar symud i gartref gofal: mae hyn yn hanfodol os ydym i sicrhau eu bod yn cael eu galluogi i wneud 'beth sy'n bwysig' iddynt.

127 Angen Gweithredu 1.6, Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Tachwedd 2014

Er bod modd rhoi sylw i'r mater hwn yn rhannol drwy wella gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ni fydd y ddyletswydd o dan y Ddeddf yn helpu'r bobl hynny nad ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol. Felly bydd 'Cynnig Rhagweithiol' yn hanfodol i sicrhau eu bod yn gallu cael eiriolaeth annibynnol.

3. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y rheini sydd â'r angen mwyaf am eiriolaeth annibynnol yn cael gwybod am eu hawliau a'r buddion mwy cyffredinol a geir o eiriolaeth annibynnol.

Mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod y rheini sy'n fwyaf agored i niwed yn ymwybodol o'u hawliau – mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol ac yn fwy cyffredinol mewn perthynas â deddfwriaeth ddiweddar, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n glir bod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rôl eiriolaeth annibynnol ar draws y boblogaeth, ac yn enwedig mewn perthynas â grwpiau cleientiaid penodol, yn effeithio ar y cynnig o eiriolaeth annibynnol a'r defnydd ohoni. Heb ddeall beth yw eiriolaeth annibynnol a sut y gall eu helpu, ni fydd unigolion yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch derbyn y cynnig ohoni.

Byddai anelu mesurau i hybu ymwybyddiaeth at grwpiau penodol, fel gofalmwyr a/ neu bobl sy'n byw gyda dementia, yn helpu i sicrhau bod y rheini sydd â'r angen mwyaf yn ymwybodol o'u hawliau dichonol i gael eiriolaeth annibynnol. Dylid defnyddio Asesiadau Poblogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gael gwell dealltwriaeth o ba grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed ac a fyddai'n elwa o fesurau i hybu ymwybyddiaeth o eiriolaeth annibynnol. Mae'n bwysig bod gwybodaeth ar gael am eiriolaeth annibynnol, yn cynnwys yr hawliau cyfreithiol i'w derbyn, mewn manau lle mae pobl yn dod i gysylltiad â gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys, ymysg lleoedd eraill, Meddygfeydd meddygon teulu, Llyfrgelloedd a Chlinigau Cof, a dylai gael ei hyrwyddo gan y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n dod i gysylltiad ag unigolion sy'n agored i niwed yn fwy cyffredinol.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y dyletswyddau newydd o dan ddeddfwriaeth fwy diweddar a deddfwriaeth hŷn yn cael eu hyrwyddo'n briodol ymysg pobl hŷn. Er enghraifft, mae'n bwysig bod pobl hŷn yn ymwybodol o bethau fel y gofyniad sydd ar ddarparwyr gwasanaethau i sicrhau bod unigolion yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynnal neu gymryd rhan mewn asesiadau, cynlluniau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch y ffordd o ddarparu gofal a chymorth iddynt¹²⁸, a hynny'n cynnwys y gofyniad i sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi unigolion i dderbyn gwasanaethau eiriolaeth perthnasol¹²⁹.

128 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

129 Canllawiau mewn perthynas â Rheoliad 23, Canllawiau statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol am gydymffurfio â rheoliadau safonau gwasanaeth, Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2017

4. Rhaid i Lywodraeth Cymru, ynghyd ag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, sicrhau cynllunio effeithiol ledled Cymru mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol, a sicrhau bod data dibynadwy ar gyfer hyn.

Mae'r data sydd ar gael i ddangos y cynnig a'r defnydd o eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol yn brin ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes gofyniad i adrodd ar hyn (heblaw am wasanaethau IMHA, nad yw'r data amdanynt yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd), ac o ganlyniad i hyn nid oes data cenedlaethol ar gael. Heb y data hyn, ni ellir asesu a yw hawliau'r rheini sydd â hawl i gael eiriolaeth annibynnol statudol yn cael eu cynnal ac ni ellir gwybod i ba raddau y mae eiriolaeth anstatudol yn cael ei gweithredu ledled Cymru.

Rhaid cael data dibynadwy i alluogi Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i werthuso'r graddau y mae'r gyfraith yn cael ei chynnal a dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni, gan sicrhau bod hawliau unigolion o ran derbyn eiriolaeth annibynnol statudol, a derbyn eiriolaeth annibynnol yn gyffredinol, yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau hollgyffredinol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel y ddyletswydd i roi sylw dyledus i farn, dymuniadau a theimladau.

Ar lefel leol, mae data yn hanfodol ar gyfer blaengynllunio effeithiol er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i ddiwallu'r angen. Heb eu cael, ni ellir gwerthuso'r graddau y mae Cyrff Corfforaethol yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol a thanseilir gallu Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i werthuso effeithiolrwydd eu prosesau mewnol. Er bod data llinell sylfaen am niferoedd yn hanfodol, rhaid hefyd cael tystiolaeth fwy ansoddol i ddangos y graddau y mae'r gyfraith wedi'i chynnwys mewn ymarfer, er enghraifft, Adolygiadau Ansawdd Mewnol. Er ei bod yn bwysig cael gwybod drwy gasglu data fod cynnig o eiriolaeth annibynnol statudol wedi'i wneud, mae Adolygiadau Ansawdd Mewnol yn gallu helpu i ddysgu mwy o wersi am ffyrdd o wella gwasanaethau.

Mae angen sylfaenol am gasglu data gwell mewn perthynas â defnyddio eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol yn ystod prosesau diogelu. Heb eu cael, ni fydd Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol na Byrddau Iechyd yn gallu cael sicrwydd bod rhai o'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn cael eu galluogi i beri i'w llais gael ei glywed. Rhaid i ddata gwell fod yn rhan o fframwaith strategol cyffredin fel y gellir cymharu setiau data sefydliadol neu thematig, er enghraifft, drwy gymharu nifer yr ymchwiliadau i 'oedolion mewn perygl' a'r defnydd o eiriolaeth annibynnol statudol yn ystod y broses diogelu. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth fwy manwl o'r ffordd o ddarparu gwasanaethau, gan helpu i greu darlun mwy cyflawn o ymarfer mewn sefydliadau a chydymffurfio ar lefel genedlaethol.

Yn ogystal â'r angen am ddata dibynadwy i graffu ar gydymffurfio â dyletswyddau statudol, mae eu hangen hefyd mewn perthynas â blaengynllunio effeithiol. Heb

hynny, mae perygl na fydd gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael, hyd yn oed lle mae cydnabyddiaeth o'r angen amdanynt. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn gweithredu ar sail yr hyn y mae'r data yn ei ddangos, gan ddyrannu adnoddau'n unol â hynny. Rhaid seilio hyn ar ddefnydd deallus o'r data mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol, sy'n cydnabod natur ddemograffig yr angen, fel nifer y bobl hŷn sy'n byw gyda dementia, neu'r angen am eiriolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill, yn cynnwys BSL, er mwyn cynnal y broses cynllunio a sicrhau bod digon o eiriolwyr annibynnol arbenigol wedi'u darparu. Rhaid cryfhau Asesiadau Poblogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer eiriolaeth annibynnol statudol ac anstatudol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys unrhyw angen am fathau mwy arbenigol o eiriolaeth annibynnol.

5. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth a chraffu effeithiol i sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau mewn deddfwriaeth mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol statudol a bod egwyddor 'llais a rheolaeth' wedi'i chynnwys ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrwydd am gynnal hawliau pobl hŷn yng Nghymru ac am gydymffurfio â dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r gyfraith, yn cynnwys craffu ar effeithiolrwydd y cynnig o eiriolaeth annibynnol pan fydd hawl gan yr unigolyn i'w chael. Yn ogystal â hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrwydd bod dyletswyddau ehangach mewn perthynas â darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person yn cael eu cyflawni, fel y ddyletswydd i roi sylw dyledus i farn, dymuniadau a theimladau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – un o egwyddorion sylfaenol y Ddeddf.

Fel y nodwyd uchod, mae prinder data mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol yn fater y mae'n rhaid rhoi sylw iddo. Rhaid i hyn gynnwys camau i greu 'dangosyddion critigol strategol' i ddangos beth yw llwyddiant mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol, fel y gellir sicrhau bod llwyddiant yn cael ei werthuso a'i gofnodi'n effeithiol. Byddai defnyddio dangosyddion o'r math hwn yn rhoi'r gallu i bennu meincnod mewn perthynas â'r gwahanol elfennau sydd eu hangen i sicrhau bod pob unigolyn yn cael llais effeithiol yn y broses penderfynu sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn y pen draw, yr unig ffordd i fesur llwyddiant deddfwriaeth yw drwy fesur ei heffaith ar fywydau unigolion a'r graddau y mae ei phwrpas wedi'i gyflawni. Heb gael dangosyddion critigol strategol, tansellir gallu Llywodraeth Cymru i graffu, gwerthuso a darparu sicrwydd i'r cyhoedd bod amcan ei deddfwriaeth wedi'i gyflawni.

Diolchiadau

Hoffai'r Comisiynydd ddiolch i'r holl randdeiliaid, sefydliadau a defnyddwyr eiriolaeth a roddodd o'u hamser a'u gwybodaeth arbenigol i hwyluso'r trafodaethau am allu pobl hŷn i dderbyn eiriolaeth annibynnol. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys:

Advocacy Matters Wales
Advocacy West Wales
Age Connects – Caerdydd a'r Fro
Age Connects – Canol Gogledd Cymru
Age Connects – Gogledd-ddwyrain Cymru
Age Cymru - Ceredigion
Age Cymru - Gwent
Age Cymru - Gwynedd a Môn
Age Cymru - Sir Gâr
Anabled Dysgu Cymru
BIP Cwm Taf
BIP Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
CBS Caerffili
CBS Conwy
CBS Pen-y-bont ar Ogwr
CBS Tor-faen
CBS Wreccsam
Comisiynydd Plant Cymru
Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Ynys Môn
Cymdeithas Alzheimer's – Y De-ddwyrain
Cymdeithas Alzheimer's – Y Gogledd
Cymdeithas Alzheimer's – Y Gorllewin
Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cynllun Eiriolaeth Iechyd Meddwl
Dewis CIL
Disability Can Do (Gwasanaeth Eiriolaeth)
Eiriolaeth Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych (CADMHAS)
Eiriol Mental Health
Gofal Cymdeithasol Cymru
Gofalwyr Cymru
Grŵp Hunaneirioli Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWSA)

Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru
Gweithredu Dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru
Hunaneirioli Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWSA)
Llywodraeth Cymru
Mental Health Matters Wales
Mind Merthyr Tudful a'r Cymoedd
Newport Age Alive (SEWREC)
Person to Person Citizen Advocacy
Pobl yn Gyntaf – Caerffili
Pobl yn Gyntaf – Pen-y-bont ar Ogwr
Pobl yn Gyntaf – Sir Benfro
Prifysgol Abertawe
Pro-Mo Cymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
RNIB Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Loteri Fawr
Y Rhaglen Eirioli Edau Euraidd

